Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# 20 mlynedd o ddatganoli – sut mae Cymru wedi newid?

## Datganoli 20

Mai 2019



DATGANOLI
DEVOLUTION

www.cynulliad.cymru/ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: www.cynulliad.cymru/ymchwil

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


Ymchwil y Senedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

0300 200 6565

Resarch.Service@Cynulliad.Cymru

www.cynulliad.cymru/ymchwil

SeneddYmchwil.blog

SeneddYmchwil



**© National Assembly for Wales Commission Copyright 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**


# 20 mlynedd o ddatganoli – sut mae Cymru wedi newid?

## Datganoli 20

Mai 2019


**Cyfranwyr:**
Andrew Minnis, Amy Clifton, Phil Boshier, Michael Dauncey, Lorna Scurlock, Chloe Corbyn, Ben Stokes, Alys Thomas, Joe Wilkes, Sam Jones, Lucy Morgan a Tom Douch

**Golygyddion:**
Graham Winter, Philippa Watkins, Robin Wilkinson, Megan Jones ac Elfyn Henderson

# Cynnwys

**Rhagair** ........ **1**

**Sut y mae maint Cymru wedi newid?** ........ **2**

**Teithio yng Nghymru: A oes chwyldro ar ei ffordd?** ........ **10**

**Ydyn ni'n genedl iachach?** ........ **20**

**Addysg: A yw 'wedi'i wneud yng Nghymru'?** ........ **26**

**Sut mae amgylchedd Cymru wedi newid?** ........ **34**

**Yr economi yng Nghymru: Amser i ganolbwyntio ar y sylfeini?** ........ **43**

**O Gynulliad i Senedd?** ........ **50**

**Datganoli 20:** 20 mlynedd o ddatganoli – sut mae Cymru wedi newid?

# Rhagair



Mae llawer wedi newid yng Nghymru yn yr ugain mlynedd sydd wedi mynd heibio ers ethol Cynulliad Cenedlaethol cyntaf Cymru ym mis Mai 1999. Mae'r gyfres hon o erthyglau, a baratowyd gan Ymchwil y Senedd fel rhan o weithgarwch y Cynulliad i nodi 20 mlynedd o ddatganoli, yn disgrifio rhai o'r newidiadau hynny.

Etholwyd pum Cynulliad ers 1999. O'r cychwyn cyntaf, mae Aelodau'r Cynulliad wedi cael cefnogaeth gan grŵp o staff ymchwil seneddol sydd â'r dasg o'u helpu gyda'u gwaith trwy ddarparu gwybodaeth ac ymchwil ddiduedd.

Mae'r adran a ddechreuodd yn y Cynulliad cyntaf fel llyfrgell fechan, draddodiadol, yr oedd ei staff yn ymateb i ymholiadau gan Aelodau, wedi troi'n Ymchwil y Senedd heddiw. Mae ein harbenigwyr pwnc yn darparu papurau briffio diduedd, yn seiliedig ar dystiolaeth a chymorth ymchwil i Aelodau unigol a phwyllgorau'r Cynulliad, yn ogystal â chyhoeddi amrywiaeth eang o bapurau briffio amserol sy'n agored i bawb.

Mae'r erthyglau a gyflwynwyd gyda'i gilydd yn y cyhoeddiad hwn eisoes wedi eu cyhoeddi'n unigol ar ein **blog Pigion**, sydd wedi bod y darparu dadansoddiad a gwybodaeth am fusnes y Cynulliad ers 2013. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am ein holl waith ar ein **gwefan**.

Mae un o'n herthyglau yn adrodd y stori o sut mae'r Cynulliad wedi datblygu o fod yn sefydliad gyda phwerau cyfyngedig iawn i'r ddeddfwrfa lawn ydyw heddiw. Mae un arall yn edrych ar sut mae nodweddion pobl sy'n byw yng Nghymru wedi newid ers 1999. Mae gweddill yr erthyglau yn archwilio newid yn rhai o'r prif feysydd polisi cyhoeddus datganoledig fel iechyd, addysg, yr amgylchedd a thrafnidiaeth, ac mae pob un yn amlygu rôl y Cynulliad yn y newid hwnnw.

Gyda'i gilydd, mae'r erthyglau hyn yn esbonio rhywfaint o hanes yr ugain mlynedd cyntaf ers datganoli ac yn ceisio dangos y ffordd o ran beth all ddigwydd yn y blynyddoedd i ddod.

**Kathryn Potter**
Pennaeth Ymchwil y Senedd

# Sut y mae maint Cymru wedi newid?

- Yn 2017, amcangyfrifir bod 3.125 miliwn o bobl yn byw yng Nghymru, sef cynnydd o 225,000 o bobl (neu 7.7%) ers 1999.
- Y prif ffactor a gyfrannodd at y twf mewn poblogaeth yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf oedd pobl yn symud o fewn y DU, yn bennaf o Loegr i Gymru.
- Rhwng 2001 a 2011, gostyngodd canran y boblogaeth yng Nghymru sy'n dweud mai eu grŵp ethnig yw Gwyn Prydeinig o 96.0% i 93.2%, a chynyddodd y ganran a ddywed eu bod yn dod o grwpiau ethnig nad ydynt yn Wyn (gan gynnwys grwpiau cymysg) o 2.1% i 4.0%.
- Disgwylir i oedran cyfartalog y boblogaeth gynyddu 2.5 blwyddyn yn yr 20 mlynedd nesaf, a disgwylir i nifer y bobl 65 oed a hŷn dyfu 30%.
- Mae nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru yn cynyddu ac roedd tua un o bob pump yn rhugl ar adeg y cyfrifiad diwethaf yn 2011.

## Poblogaeth


Tyfodd poblogaeth Cymru 225,000 (neu 7.7%) rhwng 1999 a 2017, yn ôl yr amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn diweddaraf a luniwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Dim ond rhwng 2001 a 2017 y mae'r data ar lifoedd ymfudo ar gael, felly mae'r dadansoddiad a ganlyn yn canolbwyntio ar y cyfnod hwn.

**Sut y mae'r boblogaeth yn newid yn eich ardal chi?** Mae'r siart isod yn dangos y newid canrannol i boblogaethau pob awdurdod lleol o 2001 i 2017.





Newid yn y boblogaeth 2001-2017




*Ffynhonnell: amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol*

Yr awdurdod lleol â'r cynnydd mwyaf yn y boblogaeth oedd Caerdydd (17.0%) lle'r oedd twf yn uwch na chyfartaledd Cymru (7.4%) a chyfartaledd y DU (11.7%). Cafwyd gostyngiad yn y boblogaeth ym Mlaenau Gwent a Cheredigion.

Y ffactorau a oedd yn sbarduno twf ym mhoblogaeth Cymru oedd:

- **Ymfudo mewnol** rhwng gwledydd y DU: 85,000 (41%).
- **Ymfudo rhyngwladol** rhwng Cymru a gwledydd y tu allan i'r DU: 66,000 (32%).
- **Newid naturiol** (genedigaethau a marwolaethau): 24,000 (12%).
- **Newidiadau eraill** fel y lluoedd arfog, pobl yn y carchar, a gwallau yn yr amcangyfrif: 32,000 (15%).

Y ffactor a gyfrannodd fwyaf at ymfudo mewnol oedd pobl yn symud o Loegr i Gymru. Mae ystadegau ymfudo mewnol y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amcangyfrif y symudodd 59,000 o bobl, ar gyfartaledd, o Loegr bob blwyddyn ers 1999. Mewn cyferbyniad, symudodd 53,000 o bobl bob blwyddyn i'r cyfeiriad arall.

## Ethnigrwydd, crefydd a hunaniaeth genedlaethol

Rhwng **y cyfrifiad yn 2001 ac 2011** gostyngodd canran y boblogaeth yng Nghymru sy'n dweud mai ei grŵp ethnig yw Gwyn Prydeinig o 96.0% i 93.2%, a chynyddodd y ganran sy'n dweud eu bod yn dod o grwpiau ethnig nad ydynt yn Wyn (gan gynnwys grwpiau cymysg) o 2.1% i 4.0%. Mae Cymru yn parhau i fod yn llawer llai amrywiol na Chymru a Lloegr gyda'i gilydd, lle nododd 80.5% o'r bobl eu bod yn Wyn Prydeinig yn 2011.

Y rhai sy'n dweud mai eu grŵp ethnig yw Asiaidd yw'r grŵp ethnig mwyaf ond un yng Nghymru. Rhwng 2001 a 2011 dyblodd canran poblogaeth Cymru a ddywedodd mai ei grŵp ethnig yw Asiaidd o 1.1% (32,000) i 2.3% (71,000).

Mae poblogaeth y grwpiau ethnig nad ydynt yn Wyn wedi cronni yn y dinasoedd deheuol. Yr awdurdodau lleol yng Nghymru sydd â'r gyfran isaf o'r boblogaeth sy'n dweud mai eu grŵp ethnig yw Gwyn yn 2011 oedd Caerdydd (84.8%), Casnewydd (89.9%) ac Abertawe (94.1%).

Rhwng 2001 a 2011, gostyngodd canran y boblogaeth yng Nghymru sy'n nodi mai Cristnogaeth yw eu crefydd o 71.9% i 57.6%, a chynyddodd canran y boblogaeth a ddywedodd nad oedd ganddynt grefydd bron hanner miliwn (o 18.5% i 32.1%). Y grŵp crefyddol mwyaf ond un oedd Mwslimiaid gyda bron 46,000 o bobl (1.5% o'r boblogaeth), sef cynnydd o 22,000 (0.7%) yn 2001.

2011 oedd y flwyddyn gyntaf i'r cyfrifiad ofyn cwestiwn am hunaniaeth genedlaethol. Nododd bron dwy ran o dair (66%, 2.0 filiwn) o drigolion Cymru mai Cymreig yw eu hunaniaeth genedlaethol: o'r rhain, nododd 218,000 (7.1% o'r boblogaeth gyfan) hefyd eu bod yn ystyried eu hunain yn Brydeinig.


## Ymfudo rhyngwladol

Yn 2017, roedd nifer y bobl a oedd yn byw yng Nghymru na chawsant eu geni yn y DU yn 196,000 (6.4% o'r boblogaeth), sef cynnydd o 75,000 (2.6% o'r boblogaeth) yn 2001. O ran y DU gyfan, cynyddodd hyn o 8.3% i 14% dros yr un cyfnod.

**O ble mae pobl yn symud i Gymru?** Mae mewnfudo wedi cynyddu ers 1999. Ar yr atlas isod, mae maint y saethau wedi'u graddio i gynrychioli cyfran y symudiadau i Gymru o bob cyfandir yn ystod y cyfnod rhwng 1999 a 2017.








*Ffynhonnell: mudo rhyngwladol hirdymor, y Swyddfa Ystadegau Gwladol*


Digwyddodd y cynnydd cyflymaf rhwng 2011 a 2014, gan gyrraedd ei uchafbwynt ar 28,000 o ymfudwyr y flwyddyn. Roedd allfudo ychydig yn fwy sefydlog ac yn gyfartal â'r gyfradd fewnfudo tan oddeutu 2012. Rhwng 2013 a 2017, roedd mewnfudo yn uwch nag allfudo o fwy na 10,000 o bobl y flwyddyn.

Mae'r ffactorau sy'n dylanwadu ar fudo, fel perthynas y DU â'r UE, yn anrhagweladwy. Ynghyd â'r anwadalrwydd yn y data, mae hyn yn ei gwneud yn anodd creu amcanestyniad o'r cyfraddau mewnfudo yn y dyfodol.

## Genedigaethau a marwolaethau

**Mae pobl yn cael llai o blant.** Rhwng 1999 a 2017, cyrhaeddodd nifer y genedigaethau y flwyddyn ei uchafbwynt yn 2010 ar 2.3 o enedigaethau byw i bob 100 o fenywod. Ers hynny, mae wedi gostwng yn gyson i 2.0 o enedigaethau byw i bob 100 o fenywod. Mae'r oedran pan fo merched yn rhoi genedigaeth yn cynyddu. Gostyngodd nifer y genedigaethau gan fenywod o dan 25 oed o 32% i 23% rhwng 2004 a 2017.

**Mae pobl yn byw'n hirach:** Rhwng 1999 a 2014, cynyddodd disgwyliad oes yn raddol o 3.7 o flynyddoedd ar gyfer dynion a 2.6 o flynyddoedd ar gyfer menywod. Ar gyfer y cyfnod rhwng 2012 a 2014, roedd disgwyliad oes dynion a menywod yn 78.5 a 82.3 mlwydd oed, yn y drefn honno.




*Ffynhonnell: amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol*
Er hwylustod, mae'r data'n cynnwys pobl hyd at 84 yn unig gan mai dim ond hyd at 84 y mae'r data perthnasol ar gael ar gyfer 1999



**Datganoli 20:** 20 mlynedd o ddatganoli – sut mae Cymru wedi newid?

## Dosbarthiad oedran

Mae'r pyramidiau poblogaeth isod yn dangos nifer y dynion a nifer y menywod o bob flwyddyn oedran unigol. Mae'r crychdonnau ar led y dosbarthiad yn adlewyrchu gwahaniaethau mewn cyfraddau genedigaethau a marwolaethau rhwng cenedlaethau. Er enghraifft, mae'r amrywiadau serth yn nifer y bobl 52 oed yn 1999 a 70 oed yn 2017 (a ddangosir gan saethau) o ganlyniad i'r nifer fawr o enedigaethau yn dilyn y rhyfel.

Mae dosbarthiad oedran y dynion yn adlewyrchu dosbarthiad y menywod i raddau helaeth. Un eithriad yw yn 1999, roedd cryn dipyn yn llai o ddynion o'u cymharu â menywod yn y grŵp dros 60 mlwydd oed.

**Poblogaeth sy'n heneiddio:** Gostyngodd cyfran y boblogaeth o dan 16 oed o 20% ym 1999 i 18% yn 2017. Ar y llaw arall, cynyddodd cyfran y boblogaeth 65 oed a hŷn o 17% yn 1999 i 21% yn 2017. Cynyddodd cyfran y boblogaeth o oedran gweithio (rhwng 16 a 64) o 62% i 64% rhwng 1999 a 2008 ond dychwelodd i 62% erbyn 2017.

Er bod y gwahaniaethau yn y dosbarthiadau oedran yn fach, disgwylir iddynt newid yn ddramatig yn y dyfodol, fel y trafodir isod.

## Amcanestyniadau poblogaeth

- Gan edrych tua'r 20 mlynedd nesaf, mae'r amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer 2016 a gynhyrchwyd gan *y Swyddfa Ystadegau Gwladol* yn rhoi rhyw syniad o sut y gall demograffeg Cymru newid:
- Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn tyfu 3.3% o 2019 i 2039. Mae cynnydd disgwyliedig o 103,000 yn sylweddol is na'r 20 mlynedd flaenorol.
- Disgwylir i oedran cyfartalog y boblogaeth gynyddu 2.5 mlynedd erbyn 2039, o 42.2 yn 2019 i 44.7 yn 2039.
- Disgwylir i boblogaeth pobl 65 oed a hŷn dyfu dros 30%.
- Disgwylir i'r oedran gweithio (16–64) a phoblogaethau o dan 16 leihau 4.6% a 2.6%, yn y drefn honno.

Y stori fawr yn yr amcanestyniadau hyn yw'r cynnydd disgwyliedig o dros 30% ar gyfer pobl 65 mlwydd oed a hŷn. Mae poblogaeth sy'n heneiddio yn gosod baich cynyddol ar y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a ddarperir, yn ogystal â gwasanaethau eraill, megis addasiadau cartref. Fel y mae Pwyllgor Cyllid y Cynulliad yn nodi yn ei adroddiad ymchwiliad 'cost gofalu am boblogaeth sy'n heneiddio', mae'r cynnydd yng nghyfran y bobl hŷn yn sylweddol gan fod oes

hirach yn golygu bod llawer mwy o bobl sydd ag anghenion gofal a chymorth sy'n deillio o gyflyrau cronig, gan gynnwys dementia ac eiddilwch wrth heneiddio. Bydd angen y gwasanaethau ychwanegol hyn ar adeg pan effeithir ar gyllid cyhoeddus o ganlyniad i'r gostyngiad yn nifer y boblogaeth oedran gweithio.

Mae poblogaeth sy'n tyfu yn cynyddu'r galw am gartrefi newydd. Ar hyn o bryd, amcangyfrifir y bydd angen rhwng 6,700 a 9,700 o unedau tai ychwanegol bob blwyddyn rhwng 2018-2019 a 2022-2023. Bydd tai newydd yn gofyn am ragor o ysgolion, yn ogystal â gwasanaethau trafnidiaeth a seilwaith i'w cysylltu. Mae goblygiadau hefyd i adnoddau naturiol a'r amgylchedd.

Dylid trin manylion yr amcanestyniadau hyn yn ofalus gan eu bod nhw ddim ond yn dangos sut y bydd y boblogaeth yn newid os bydd y tueddiadau presennol yn parhau. Nid ydynt yn ystyried economi sy'n newid, polisïau newydd y llywodraeth, cysylltiadau rhyngwladol, argaeledd tai, clefydau neu epidemigau, datblygiadau technolegol neu unrhyw ffactorau cymdeithasol eraill. Mae amcanestyniadau yn fwyfwy ansicr ac yn gynyddol sensitif i'r rhagdybiaethau sylfaenol a'r data a fewnbynnir yn dibynnu ar pa mor hir y cânt eu cynnal.

## Y Gymraeg


Mae'r map gwres isod yn dangos canran y bobl a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg yng Nghyfrifiadau 2001 a 2011, yn ôl ardal. Mae'r data'n dangos bod canran y bobl sy'n ystyried eu bod yn siarad Cymraeg yn uwch yng ngogledd a gorllewin Cymru o gymharu â de-ddwyrain Cymru.

Mae'r Cyfrifiad yn dangos gostyngiad yng nghanran y siaradwyr Cymraeg o 21% (582,000) yn 2001 i 19% (562,000) yn 2011. Mae Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol, sy'n gofyn cwestiwn tebyg i sampl o aelwydydd o ran gallu yn y Gymraeg yn awgrymu bod nifer y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg wedi cynyddu'n raddol ers 2010, ac mae'r data diweddaraf yn 2018 yn nodi bod dros 875,000 o bobl tair oed a hŷn yn gallu siarad Cymraeg.





Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed uchelgeisiol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i un filiwn erbyn 2050 (yn seiliedig ar ganlyniadau'r Cyfrifiad). Mae ei strategaeth iaith Gymraeg, Cymraeg 2050, yn nodi'r ymyriadau, y gefnogaeth a'r buddsoddiad allweddol sydd eu hangen i gyflawni'r nod hwn. Mae'r rhain yn cynnwys pethau fel ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer y blynyddoedd cynnar, cynyddu cyfran y plant sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg, datblygu cyfleoedd a hyrwyddo ei defnydd yn gymdeithasol ac yn y byd digidol.




*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 a Chyfrifiad 2011, y Swyddfa Ystadegau Gwladol*
Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA)
Mae'r un nifer o ardaloedd LSOA ym mhob band lliw


## Ffynonellau defnyddiol

- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, **Amcangyfrifon poblogaeth canol y flwyddyn** (2018)
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, **Mewnfudwyr rhyngwladol hirdymor** (2018)
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, **Cyfrifiadau 2001 a 2011** (2013)
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, **Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth** (2019)
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, **Rhagolygon poblogaeth cenedlaethol 2016** (2018)
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, **Disgwyliad oes** (2013)
- Llywodraeth Cymru, **Y cyfrifiad o'r boblogaeth: 2011** (2015)

# Teithio yng Nghymru: A oes chwyldro ar ei ffordd?

Yng nghyd–destun datganoli cynyddol – a arweiniodd at lunio *Deddf Cymru 2017* a datganoli pwerau masnachfreinio rheilffyrdd – mae ein dewisiadau teithio wedi newid ers 1999. Rydym yn fwy tueddol o yrru a defnyddio'r trên, yn llai tebygol o ddefnyddio'r bws, ac yn parhau â'r un cyfraddau cymharol sefydlog o ran cerdded a beicio.

Ac eto, yn y dyfodol bydd technoleg, tueddiadau cymdeithasol a newidiadau i bolisïau yn effeithio'n sylweddol nid yn unig ar deithio, ond ar ein hiechyd, yr economi a'r amgylchedd.




*Ffynhonnell: Ystadegau Cymudo, yr Adran Drafnidiaeth*

Mae'r erthygl hon yn edrych ar sut a pham mae rhai o'n dewisiadau wrth deithio o amgylch Cymru drwy gyfrwng ffyrdd, rheilffyrdd, beicio a cherdded wedi newid, gan dynnu sylw at rai materion allweddol ar gyfer y dyfodol.

## Cymudo

Mae ein teithiau dyddiol i'r gwaith yn dangos tueddiadau ehangach o ran sut rydym yn teithio.

Mae'n cymryd mwy o amser i deithio i'r gwaith, sy'n gyson â theithiau hirach a thagfeydd traffig. Er gwaethaf pryderon am yr amgylchedd, iechyd a thagfeydd, y car yw'r dewis cyntaf yn fwyfwy, ac mae rhagor ohonom yn teithio ar ein pen ein hunain.





Mae nifer y bobl sy'n cymudo ar y trên wedi cynyddu'n sylweddol, ac mae'r rhai sy'n defnyddio'r bws wedi lleihau – er bod y bws yn parhau i fod y dull teithio mwyaf poblogaidd yn gyffredinol ar gyfer yr holl deithiau (nid dim ond y rhai i'r gwaith).

Er bod nifer y bobl sy'n dewis cerdded wedi lleihau, mae beicio wedi cynyddu – fodd bynnag, dim ond 2% ohonom wnaeth gymudo ar feic yn ystod 2017.

## Teithio llesol

Ystyrir yn aml fod teithio llesol yn allweddol o ran mynd i'r afael â rhai heriau mawr o ran **iechyd y cyhoedd, yr amgylchedd a thrafnidiaeth** – er enghraifft mynd i'r afael â **lefelau cynyddol o bwysau gormodol a gordewdra** yng Nghymru.

Er bod data cymaradwy cerdded a beicio dros y cyfnod yn gyfyngedig, mae data ar gymudo yn awgrymu cyfraddau sefydlog o ran teithio llesol. Mae ffynonellau ehangach yn ategu hyn.

Mae data mwyaf diweddar **Llywodraeth Cymru** yn dangos bod ***Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013*** wedi cael effaith gyfyngedig ar gyfraddau teithio llesol.

Mae teithio llesol yn golygu cerdded a beicio fel modd o deithio h.y. i gyrraedd man penodol yn hytrach nag ar gyfer pleser, iechyd neu ymarfer corff.

Gan ddefnyddio'r diffiniad hwn, mae data Llywodraeth Cymru yn dangos bod oddeutu 6% o bobl yn beicio o leiaf 5 i 10 munud rhwng 2013–14 a 2017–18. Er bod 58% yn cerdded bob wythnos yn 2017–18, roedd hyn wedi lleihau o'i gymharu â thros 65% yn 2013–14. Er bod newid i'r dull a ddefnyddir i gasglu data yn 2017–18 yn golygu nad oes modd cymharu'n uniongyrchol â blynyddoedd blaenorol, mae'n eithaf amlwg na fu newid sylweddol.


Disgrifiwyd Deddf 2013, a luniwyd o ganlyniad i ddeiseb a gyflwynwyd i Bwyllgor Deisebau'r Cynulliad yn 2007, fel '**trobwynt mawr 'ar y pryd** gan Weinidogion. Ei nod yw hyrwyddo teithio llesol a gwella seilwaith, gan ddisodli dull anstatudol blaenorol.

Ac eto, yn dilyn **gwaith craffu ar ôl y Broses ddeddfu gan Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau yn 2018**, daeth y Cadeirydd i'r casgliad bod "diffyg arweinyddiaeth, cyllid ac uchelgais wedi cyfrannu at y canlyniad gwael hyd yma".


Gwnaeth **Y Pwyllgor ganfod tystiolaeth** fod y rhwystrau i newid ymddygiad yn gymhleth, gan gynnwys pryderon am ddiogelwch ar y ffyrdd, diogelwch personol, costau, ac ansawdd seilwaith.

Er bod galwadau i weithredu wedi arwain at **ragor o gyllid gan Lywodraeth Cymru**, nid oes tystiolaeth i brofi bod polisi teithio llesol Cymru yn effeithiol hyd yn hyn.

Canran y newid mewn poblogaeth a milltiroedd cerbydau yng Nghymru, 1999-2017 (Mynegai:1999 = 100)




Damweiniau ffordd yng Nghymru yn ôl difrifoldeb a blwyddyn, 1999-2017




*Ffynonellau: Ystadegau Traffig Ffyrdd, yr Adran Drafnidiaeth*
*System damweiniau ffyrdd a gofnodwyd, Llywodraeth Cymru*

## Perchnogaeth ceir a thraffig ffyrdd


Er gwaethaf y gostyngiad yn ystod y dirwasgiad – mae cyfanswm y traffig ffyrdd wedi cynyddu bron i 17% ers 1999, a chynnydd o tua 12% o ran traffig ceir. Mae'r ddau yn uwch o lawer na'r twf yn y boblogaeth.

Er gwaethaf y cynnydd mewn traffig, mae data damweiniau yn dangos bod ein ffyrdd yn fwy diogel. Gwnaeth nifer y damweiniau a arweiniodd at farwolaeth neu anaf difrifol leihau tua 44% a 35% yn y drefn honno rhwng 1999 a 2017. Cafwyd lleihad mwy sylweddol hyd yn oed mewn mân anafiadau (57%) yn golygu bod cyfanswm y damweiniau sy'n achosi anaf wedi gostwng tua 54%. Mae **hyn yn adlewyrchu tuedd ar ôl y 1960au ar draws y DU** mewn perthynas â gweithredu ar yfed a gyrru a diogelwch cerbydau a ffyrdd.



**Datganoli 20:** 20 mlynedd o ddatganoli – sut mae Cymru wedi newid?

Nifer y ceir trwyddedig yng Nghymru yn ôl math o injan, 1999-2017





*Ffynhonnell: Ystadegau Cerbydau Trwyddedig, yr Adran Drafnidiaeth*

Mae'r nifer a'r math o geir a ddefnyddir gennym wedi newid. Ers 1999 mae **cyfanswm nifer y bobl sy'n berchen ar gar yng Nghymru** wedi cynyddu 24% i tua 1.5 miliwn o geir, yn debyg i'r gyfradd ar draws Prydain Fawr (sef 23%).

Bu cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n defnyddio diesel yng Nghymru – **sy'n adlewyrchu'r "dash for diesel" fel y'i gelwir.** O'r 2000au cynnar, roedd y Dreth Car (VED) yn cymell pobl i brynu cerbydau â llai o allyriadau $CO_2$, gan gynnwys diesel er gwaethaf yr effeithiau uwch ar ansawdd aer/iechyd (**er bod gwneuthurwyr yn pwysleisio** bod cerbydau diesel newydd yn well o'u cymharu â cherbydau petrol).

Yn fwy diweddar, mae'r ffocws ar ansawdd aer, yr effeithiau niweidiol yn dilyn **sgandal allyriadau "Dieselgate" yn 2015** a newidiadau i'r Dreth Car wedi arwain at gwymp yn **nifer y cerbydau diesel newydd a gofrestrir ar draws Prydain Fawr**.

## Oedran a maint injan car cyfartalog Cymru, 2003-2017




*Ffynhonnell: Ystadegau Cerbydau Trwyddedig, yr Adran Drafnidiaeth*

Mae peiriannau ein ceir yn llai – sy'n gyson â'r newidiadau i'r Dreth Car a'r gwelliannau i dechnoleg peiriannau. Mae hefyd yn glir, **yn debyg i'r DU gyfan**, ein bod yn gyrru ceir hŷn, sy'n **adlewyrchu effaith y dirwasgiad** yn rhannol.

Stori hir yw'r ddadl o ran a yw adeiladu ffyrdd newydd yn gynaliadwy, sy'n adlewyrchu'r tensiwn amlwg rhwng blaenoriaethau economaidd ac amgylcheddol.

Mae'r **penderfyniad ynghylch ffordd liniaru'r M4** yn achos prawf i lawer. Mae'n ymddangos bod **traffig eisoes wedi cynyddu** yn dilyn ymgyrch hir i ddileu Tollau Pont Hafren, a ddigwyddodd fis Rhagfyr diwethaf.

Mae Cymru yn un o'r **ardaloedd gwaethaf yn y DU o ran ansawdd aer** – gan gynnwys **y ffordd fwyaf llygredig ym Mhrydain y tu allan i Lundain**. Gan fod y rhan fwyaf o lygredd aer lleol **yn dod o allyriadau cerbydau ffyrdd**, a'r **camau cyfreithiol** sy'n arwain **Llywodraeth Cymru i greu cynlluniau i fynd i'r afael ag ansawdd aer**, bydd angen cadw golwg ar hyn.

O ran newid hinsawdd, roedd ***Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016*** yn gosod Cymru dan rwymedigaeth i leihau allyriadau carbon i raddau helaeth. Mae data gan **Bwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd (UKCCC)** yn dangos bod trafnidiaeth yn gyfran is (13%) o gyfanswm allyriadau Cymru o'i chymharu â'r DU gyfan (28%), yn rhannol oherwydd y nifer sylweddol o allyrwyr ynni swmpus a diwydiannol yng Nghymru.

Fodd bynnag, **mae Pwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd yn cynnig** gostyngiadau sylweddol uwch i allyriadau gan drafnidiaeth o'u cymharu, er enghraifft, â diwydiant, i gyflawni targedau allyriadau Cymru.



**Datganoli 20:** 20 mlynedd o ddatganoli – sut mae Cymru wedi newid?

Er bod angen gweithredu hefyd ar fysiau, trenau a'r broses o gludo nwyddau, ceir yw'r **ffynhonnell trafnidiaeth fwyaf o allyriadau CO2 yng Nghymru** o bell ffordd.

**Mae Pwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd yn cynnig i nifer sylweddol o bobl Cymru brynu cerbydau allyriadau isel iawn (ULEV)**, yn ogystal â chynyddu'r defnydd o drafnidiaeth cyhoeddus a theithio llesol. Er bod nifer y bobl sy'n berchen ar gerbydau allyriadau isel iawn yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol (gweler uchod), dim ond **760 o gerbydau trydan newydd** a gofrestrwyd yn 2017 – sef 1.6% o gyfanswm y DU.

Dim ond **3.1% o bwyntiau gwefru y DU sydd gan Gymru** ar hyn o bryd. Mae'n amlwg y bydd angen gweithredu y tu hwnt i **fuddsoddiad £2 filiwn Llywodraeth Cymru yn y pwyntiau gwefru ar gefnffyrdd** er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio cerbydau allyriadau isel iawn.

Bydd datblygu 'Cerbydau Cysylltiedig ac Awtonomaidd', gan gynnwys cerbydau hunan-yrru, yn faes i gadw golwg arno. **Er gwaethaf heriau technegol** a digon o bobl sy'n amheus, mae'r rhai sydd o blaid yn rhagweld chwyldro trafnidiaeth gyhoeddus a phreifat. **Mae Llywodraeth y DU am weld** ceir cwbl awtonomaidd ar ffyrdd y DU erbyn 2021. Er nad yw'r prif sbardunau polisi wedi'u datganoli, gwnaeth **Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau** nodi heriau a chyfleoedd i Gymru – a chynigiodd rôl i Lywodraeth Cymru fel "galluogwr, hwylusydd a chydlynydd" ar gyfer y dechnoleg.

## Teithio ar fysiau

Mae tueddiadau o ran nifer y bobl sy'n teithio ar fysiau yn dangos bod cerdyn teithio rhatach cenedlaethol cyntaf y DU ar gyfer bysiau, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2002, wedi helpu i wrth-droi'r gostyngiad ar ôl y 1980au yn nifer y bobl sy'n defnyddio bysiau. Mae'r polisi wedi cael effaith enfawr ar fywydau pobl hŷn ac anabl, gyda **46 miliwn o deithiau yn cael eu gwneud yn rhatach yng Nghymru** yn ystod 2017-18.


Fodd bynnag, mae'r gostyngiad yn nifer y teithwyr ers 2008-09 wedi bod yn serth – sy'n peri pryder o ystyried **pwysigrwydd economaidd-gymdeithasol** teithio ar fysiau. Er bod hyn yn adlewyrchu'r duedd ar draws Prydain Fawr (y tu allan i Lundain), mae'r gostyngiad yng Nghymru wedi bod yn sylweddol dros y ddegawd diwethaf.

Er bod temtasiwn i chwilio am esboniadau syml – cyni neu ddadreoleiddio'r diwydiant bysiau – mae **achosion y gostyngiad** yn gymysgedd cymhleth o ffactorau economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys dewisiadau eraill i fysiau ac agweddau'r cyhoedd.

Fel y mae'r siart uchod yn dangos, mae'r costau fesul teithiwr i gynnal bysiau wedi cynyddu'n gyflymach yng Nghymru ers 2004–05 o'u cymharu ag ardaloedd eraill Prydain Fawr (y tu allan i Lundain). **Er bod data hefyd yn dangos** refeniw uwch fesul teithiwr, mae hyn hefyd wedi lleihau ers 2011–12. Yn y cyfamser, **mae tagfeydd traffig yn effeithio ar gostau'r diwydiant**, ac nid yw'n bosibl i lywodraeth leol sy'n brin o arian **lenwi bylchau drwy wasanaethau â chymhorthdal**.

Mae teithiau rhatach yn gyfran uwch o gyfanswm y teithiau yng Nghymru o'u cymharu â theithiau mewn ardaloedd eraill. Er bod y rhain yn darparu refeniw, nid yw'r pris llawn yn cael ei ad-dalu i'r gweithredwyr. **Daeth Llywodraeth Cymru i'r casgliad bod** hyn wedi "cyfrannu i'r chwyddiant yn y costau teithio ar gyfer y bws yng Nghymru".


Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynigion Papur Gwyn ar gyfer **dulliau statudol i awdurdodau lleol sy'n cynllunio gwasanaethau bws** gan ddefnyddio pwerau datganoledig newydd, ac i gynyddu'r oedran cymhwystra ar gyfer tocynnau teithio rhatach. Ar ôl **tynnu cyllid yn ôl ar gyfer Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol llywodraeth leol** yn 2014, mae'r Llywodraeth hefyd yn cynnig **strwythurau llywodraeth leol statudol cenedlaethol/rhanbarthol newydd** – i gynllunio gwasanaethau'n fwy effeithiol. Ond mae gwrthdroi'r gostyngiad yn her sylweddol.




*Ffynhonnell: Ystadegau Bysiau, yr Adran Drafnidiaeth*
*Mae'r llinell wedi'i thorri yn dangos newid mewn methodoleg amcangyfrif.








*Ffynhonnell: Ystadegau Defnydd Rheilffyrdd Rhanbarthol, y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd*
*Asedau Seilwaith Rheilffyrdd ac Ystadegau Amgylcheddol, y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd*

## Teithio ar drenau

Yn wahanol i nifer y bobl sy'n defnyddio bysiau, mae nifer y bobl sy'n defnyddio trenau wedi cynyddu, gyda'r cynnydd mwyaf yng Nghymru. Er bod gan bedair masnachfraint wasanaethau yng Nghymru ar hyn o bryd, roedd y rhan fwyaf o deithiau trên yng Nghymru drwy **fasnachfraint Trenau Arriva Cymru, a gafodd ei phardduo gan lawer**.

Roedd gwasanaethau Cymru'n rhanedig cyn sefydlu Trenau Arriva Cymru. Roedd masnachfraint Trenau Arriva Cymru, **a ddyfarnwyd gan yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol (SRA) yn 2003,** yn cynnwys elfennau o dair masnachfraint flaenorol.

Roedd yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol wedi rhagweld na fyddai nifer y teithwyr yn cynyddu, gyda dim ond ychydig o fuddsoddiad gan Trenau Arriva Cymru. O edrych yn ôl, roedd hyn yn gamfarn o ystyried y cynnydd dilynol yn nifer y teithwyr a cherbydau gorlawn, a oedd, wrth i'r fasnachfraint ddod i ben, wedi bod yn mynd ers 28 mlynedd ar gyfartaledd – bron i wyth mlynedd yn fwy na'r cyfartaledd ym Mhrydain Fawr erbyn 2018.

Cynyddodd y feirniadaeth, er gwaethaf buddsoddiad ychwanegol gan Trenau Arriva Cymru, a **buddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru** yn y rheilffyrdd ar ôl dechrau rheoli'r masnachfreintiau yn 2006.

Ac eto, nododd **Archwilydd Cyffredinol Cymru** fod perfformiad Trenau Arriva Cymru wedi gwella ers 2006 – er bod hynny'n anwastad. Yn **2017 canfu'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig** (WASC) fod Trenau Arriva Cymru wedi rhagori ar dargedau cytundebol **Mesuriad Perfformiad Cyhoeddus (PPM)** o ran prydlondeb a dibynadwyedd, a dangosodd data swyddogol fod Trenau Arriva Cymru **yn agos at frig tablau'r gynghrair Mesuriad Perfformiad Cyhoeddus**.

Fodd bynnag, roedd y llwyddiant ymddangosiadol hwn yn cuddio gorlenwi ac anfodlonrwydd. Dywedodd Trenau Arriva Cymru wrth y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig fod capasiti cyfyngedig, cerbydau gwael a gwaith peirianneg wedi effeithio ar ganlyniadau'r **Arolwg Teithwyr Rheilffordd Cenedlaethol** a'r adborth gan gwsmeriaid a staff.

O ystyried yr anfodlonrwydd hwn, mae trenau wedi bod yn ffocws allweddol yn y Cynulliad. Cynhaliwyd sawl ymchwiliad sylweddol gan Bwyllgorau, gan ganolbwyntio ar y **fasnachfraint rheilffyrdd** a **seilwaith y rheilffyrdd** yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, a **gwaith pellach ar y paratoadau ar gyfer y fasnachfraint rheilffyrdd newydd** yn ystod y Cynulliad hwn.

Fodd bynnag, mae gan bobl obeithion mawr am **fasnachfraint TrC Trenau** , a gaffaelwyd ac a reolir gan **Trafnidiaeth Cymru** , cwmni newydd Llywodraeth Cymru i ddarparu trafnidiaeth, gan ddefnyddio pwerau masnachfraint a ddatganolwyd yn 2018.

**Er gwaethaf dechrau sigledig** , o fis Hydref 2018, bydd y contract yn cynnwys buddsoddiad cyhoeddus sylweddol dros 15 mlynedd ar gyfer y contract mwyaf gwerthfawr a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru hyd yn hyn. **Mae newidiadau cyffrous ar y gweill** gan gynnwys cerbydau newydd, trydaneiddio llinellau craidd y cymoedd, cynyddu amlder y gwasanaethau, a thocynnau clyfar.

Mae'r contract yn arloesol – yn enwedig wrth i Lywodraeth Cymru gymryd perchnogaeth dros Gledrau Craidd y Cymoedd i ddatblygu gwasanaethau trydanol Metro De Cymru.

Bydd teithwyr yn gobeithio am gamau gweithredu tebyg ar Rwydweithiau Metro Abertawe a Gogledd Cymru, yn ogystal â chanlyniadau gan "**yr achos dros fuddsoddi"** mewn seilwaith rheilffyrdd gan Lywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd yn 2018, sy'n nodi cynigion ar gyfer buddsoddiad sylweddol mewn rheilffyrdd Cymru.



**Datganoli 20:** 20 mlynedd o ddatganoli – sut mae Cymru wedi newid?

**Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i deimlo'n rhwystredig** oherwydd cyfyngiadau ar ddatganoli rheilffyrdd – yn enwedig am fod seilwaith rheilffyrdd yn parhau i fod yn faes heb ei ddatganoli. Ystyrir bod **dileu'r cynllun i drydaneiddio'r rheilffordd rhwng Caerdydd ac Abertawe** yn 2017, yn bennaf o ganlyniad i orwario, bellach yn symbol o esgeulustod Llywodraeth y DU o reilffyrdd Cymru. Efallai y gall adolygiad "gwraidd a brig" **Williams o'r rheilffyrdd** ym Mhrydain Fawr gynnig gobaith y gellir lleddfu'r rhwystredigaethau parhaus.

Mae'r 20 mlynedd nesaf yn addo hyd yn oed mwy o newidiadau o ran y ffordd rydym yn teithio yng Nghymru. Erbyn 2039, efallai y byddwn yn gofyn i ba raddau y gwnaethom groesawu heriau technoleg chwyldroadol, cefnogi ac integreiddio trafnidiaeth gyhoeddus, lleihau'r effaith ar yr amgylchedd, a sicrhau bod trafnidiaeth yn cynnal ein cymdeithas a'n heconomi mewn modd cynaliadwy. Bydd y Cynulliad yn cadw llygad barcud ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Cymru'n symud i'r cyfeiriad cywir.

## Ffynonellau defnyddiol

- Campaign for Better Transport, **Buses in crisis** (2018)
- Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, **Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 - Craffu ar ôl Deddfu** (2018)
- Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, **Ar y trywydd iawn? Masnachfraint y Rheilffyrdd a Metro De Cymru** (2017)
- Greener Journeys, **A study of the value of local bus services to society** (2016)
- Urban Transport Group, **What's driving bus patronage change? An analysis of the evidence base** (2019)
- Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig, **Wales and Borders Rail Franchise Inquiry** (2017)
- Llywodraeth Cymru, **Papur Gwyn – gwella trafnidiaeth gyhoeddus** (2018)

# Ydyn ni'n genedl iachach?

Mae cynaliadwyedd gwasanaethau iechyd a gofal yn fater hollbwysig yng Nghymru. Mae costau darparu gwasanaethau'r GIG wedi parhau i gynyddu, ac erbyn hyn maent yn cyfrif am dros hanner (52.3%) cyllideb adnoddau Llywodraeth Cymru, o'i gymharu â 39.8% yn 2010-11. Mae'r pwysau cynyddol hwn ar y gyllideb yn amlwg yn effeithio ar wasanaethau eraill fel gofal cymdeithasol, ac ar y llaw arall, cytunir yn eang bod system gofal cymdeithasol heb ddigon o adnoddau yn rhoi pwysau pellach ar y GIG.

**Mae arbenigwyr wedi rhagweld** y byddai pwysau ar ofal cymdeithasol oherwydd demograffeg, cyflyrau cronig a chostau cynyddol yn ei gwneud yn ofynnol i gyllideb y gwasanaethau cymdeithasol bron â dyblu erbyn 2030/31 i ateb y galw.

Mae gan Gymru y gyfran fwyaf o bobl hŷn fesul poblogaeth yn y DU, ac mae llawer yn byw mewn cymunedau gwledig ac ardaloedd sydd â lefelau uchel o amddifadedd.

Gwneir cymariaethau dadleuol yn aml ynghylch perfformiad y GIG yng Nghymru yn erbyn Lloegr, ond mae **adolygiadau diweddar** wedi dod i'r casgliad nad oes gwahaniaeth sylweddol mewn perfformiad rhwng gwledydd y DU.

Ers datganoli, mae dulliau o ddarparu gwasanaethau'r GIG yn y DU wedi dod yn fwyfwy amrywiol. Mae Cymru wedi symud i ffwrdd o ddefnyddio marchnad fewnol i reoli gwasanaethau; mae rôl y sector preifat mewn gofal iechyd wedi lleihau; a sefydlwyd Byrddau Iechyd Lleol integredig. **Uchelgais Llywodraeth Cymru** yw dod â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol at ei gilydd, fel bod gwasanaethau di-dor yn cael eu cynllunio a'u darparu o amgylch y person, ond mae llawer i'w wneud cyn bod hyn yn realiti.

## Heneiddio'n dda?

Mae llawer o ddata ar gael ynghylch ein poblogaeth sy'n heneiddio. Pan sefydlwyd y Cynulliad gyntaf ym 1999, roedd 17% o'r boblogaeth dros 65 oed; cododd hyn i 21% yn 2017, a rhagwelir y bydd yn cyrraedd 28% yn yr 20 mlynedd nesaf.

Rhwng 2015 a 2035, rhagwelir y bydd cyfran yr holl oedolion sy'n byw gyda chyflwr hirdymor cyfyngol yn **cynyddu 22%. Rhagwelir** y bydd y cynnydd mwyaf mewn strôc (33%), cyflyrau'r galon (31%) a chyflyrau niwrolegol gan gynnwys dementia (72%).



**Disgwyliad oes cyfartalog heddiw** yw 78 oed i ddynion ac 82 oed i fenywod. Fodd bynnag, mae dynion a menywod yn debygol o dreulio 17 ac 20 mlynedd ar gyfartaledd yn byw gydag iechyd gwael. **Amcangyfrifodd** Llywodraeth Cymru yn 2006 y byddai disgwyliad oes yn 84 oed i ddynion ac 87 oed i fenywod erbyn 2020.

Mae gwahaniaethau amlwg o ran disgwyliad oes a disgwyliad oes iach ledled Cymru nad ydynt wedi newid yn ystod y degawd diwethaf. Mae dynion a menywod yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn treulio tua 19 a 18 yn llai o flynyddoedd mewn iechyd da, ac yn marw ar gyfartaledd naw a saith mlynedd yn gynharach na'r rheini yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.

Mae disgwyliad oes cyfartalog wedi codi'n gyson ers 1999, ond mae'r cynnydd wedi arafu'n sylweddol ers 2011, gyda disgwyliad oes yn cynyddu ar gyfradd llawer arafach na'r 20 mlynedd blaenorol. Gellir gweld y duedd hon ar draws rhan helaeth o orllewin Ewrop, ond yng Nghymru, digwyddodd yr effaith yn gynharach ac erbyn hyn, dim ond yr Alban sydd â disgwyliad oes is (mae Cymru wedi llithro o safle 16 i 24 yn **25 o wledydd gorllewin Ewrop**).

Mae'r dirywiad parhaus mewn cyfraddau marwolaethau yng Nghymru hefyd wedi lleihau ers tua 2011. Cynyddodd cyfraddau marwolaethau yn sylweddol yn 2015, a briodolwyd o leiaf yn rhannol i gynnydd mewn marwolaethau o ganlyniad i'r ffliw, niwmonia a dementia ymhlith y rhai 75+ oed. **Mae Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru** wedi nodi y gallai tueddiadau cyfredol olygu y gallai cynnydd mewn marwolaethau (fel yn 2015) fod yn fwy tebygol yn y dyfodol.

## Ffordd o fyw

Mae ysmygu, bod dros bwysau neu'n ordew, deiet gwael ac anweithgarwch corfforol yn ffactorau risg sylweddol ar gyfer nifer o gyflyrau iechyd.


**Ysmygu**

Mae cyfraddau ysmygu wedi gostwng ers pasio deddfwriaeth i wahardd ysmygu mewn mannau cyhoeddus caeëdig yn 2007. Bydd deddfwriaeth ddilynol (***Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017***) yn cyflwyno cyfyngiadau pellach ar ysmygu ar dir ysgolion, mewn meysydd chwarae, ac ar dir ysbytai.

Ar ddechrau'r Cynulliad cyntaf, roedd nifer yr achosion o ysmygu **25% ar gyfer oedolion 16+ oed**. Mae'r **ystadegau diweddaraf** yn dangos bod 19% o oedolion yn ysmygu ar hyn o bryd.

Mae'r cyfraddau ysmygu hefyd wedi gostwng ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 ac 16 oed, **o 13% yn 1998 i oddeutu 4% yn 2017/18**. Er bod cyfraddau ysmygu oedolion wedi gostwng yn gyson dros y degawd diwethaf, maent wedi aros yn sefydlog dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae bwlch amddifadedd amlwg, gyda chyfraddau ysmygu yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (28%) **dros ddwywaith y rhai yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig** (13%). Os bydd y tueddiadau presennol yn parhau, bydd targed Llywodraeth Cymru o leihad i 16% yn nifer yr achosion erbyn 2020 yn cael ei fethu gan o leiaf bum mlynedd.

**Mae mwy o famau yn ysmygu yn ystod beichiogrwydd** yma nag mewn unrhyw wlad arall yn y DU. Gwnaeth **prosiect Iechyd Cyhoeddus Cymru** argymhellion ar gyfer gweithredu ar y mater hwn yn 2015 (ond nid yw'n glir a ydynt yn cael eu datblygu).




*Ffynonellau: Ysmygu yng Nghymru: y ffeithiau cyfredol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007*
*Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18, Llywodraeth Cymru*

**Alcohol**

Dywedir bod oedolion yn yfed llai; mae'r **ffigurau diweddaraf** yn dangos bod 18% o oedolion yn dweud eu bod yn yfed mwy na'r canllawiau a argymhellir. Er bod hyn yn dangos gostyngiad yn y duedd mewn lefelau yfed yn ôl hunan-adroddiadau, bu **cynnydd yn y baich afiechyd oherwydd alcohol** (dros draean) ers 1990. Nid oes eglurhad wedi'i roi ar gyfer y gwahaniaeth hwn hyd yma.





Yn ddiweddar, pasiodd y Cynulliad ***Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018*** sy'n ceisio lleihau lefelau niweidiol o yfed drwy gyflwyno isafbris ar gyfer gwerthu/cyflenwi alcohol a'i wneud yn drosedd i werthu alcohol yn is na'r isafbris. Amser a ddengys pa effaith y bydd y ddeddfwriaeth yn ei chael ar yfed alcohol a'r niwed cysylltiedig.

**Pwysau a gweithgarwch corfforol**

Mae tueddiadau yn dangos bod nifer y bobl sy'n bwyta ffrwythau a llysiau wedi gostwng dros amser, tra bod nifer yr achosion o fod dros bwysau neu'n ordew wedi cynyddu.


Mae'r **ffigurau diweddaraf** yn dangos bod 60% o oedolion dros eu pwysau neu'n ordew; mae 22% yn ordew. Mae hyn wedi cynyddu gydag amser o **54% ac 18% yn 2003/04**. Yn ôl **rhagfynegiadau iechyd cyhoeddus**, byddai parhad yn y tueddiadau cyfredol yn golygu bod dwy ran o dair o'r boblogaeth oedolion dros eu pwysau neu'n ordew erbyn 2025.

Mae cyfran uwch o blant dros eu pwysau neu'n ordew, ac yn nodi ffordd o fyw nad yw'n iach, o'i gymharu â gwledydd eraill y DU. Mae'r **Rhaglen Mesur Plant** diweddaraf yn dangos bod 26.4% o blant pedair a phump oed dros eu pwysau neu'n ordew o gymharu â 22.4% yn Lloegr a'r Alban. Mae ardal yr awdurdod lleol sydd â'r gyfran uchaf o ordewdra ymhlith plant (Merthyr Tudful) yn fwy na dwbl yr ardal awdurdod lleol sydd â'r gyfran isaf (Bro Morgannwg).

Diwygiwyd ***Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017*** yn ystod gwaith craffu gan y Cynulliad i gynnwys darpariaethau ar ordewdra. Mae bellach yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi strategaeth genedlaethol ar atal gordewdra a lleihau lefelau gordewdra, a chyhoeddi adroddiadau cynnydd yn dilyn adolygiadau. Ers hynny mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi strategaeth ddrafft, **Pwysau Iach, Cymru Iach** ar gyfer ymgynghoriad. Mae'r strategaeth ddrafft yn dweud bod arferion o ran bwyta ac anweithgarwch corfforol wedi cynyddu dros gyfnod o ddegawdau, a bod 'newidiadau technolegol a chymdeithasol yn golygu bod gweithgarwch corfforol wedi lleihau'n raddol yn ein bywydau bob dydd.'

Dim ond **tua hanner yr oedolion sy'n gwneud digon o weithgarwch corfforol**, ac nid yw traean ohonynt yn gwneud unrhyw weithgarwch corfforol o gwbl. Un o bob chwech o bobl ifanc rhwng 11 ac 16 oed sy'n cyrraedd canllawiau'r Prif Swyddog Meddygol o 60 munud o weithgarwch corfforol bob dydd. Mae bwlch amddifadedd clir (17%) hefyd i'w weld.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon adroddiad ar weithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc (a gaiff ei drafod yn y Cyfarfod Llawn yn fuan). Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth fod lefelau gweithgarwch corfforol a bod yn eisteddog ymhlith plant Cymru gyda'r gwaethaf ledled y byd. Daeth yr Aelodau i'r casgliad 'os na ddechreuwn ni weithredu ar frys yn awr i newid agweddau tuag at weithgarwch corfforol, rydym yn storio problemau ar gyfer cenedlaethau i ddod.'




*Ffynonellau: Arolwg Cenedlaethol Cymru 2003/04, Llywodraeth Cynulliad Cymru*
*Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18, Llywodraeth Cymru*
*Iechyd a'i phenderfynyddion yng Nghymru, Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2018*

**Iechyd meddwl a lles**

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rhoddwyd pwyslais newydd ar les. Mae'r Cynulliad wedi pasio dau ddarn pwysig o ddeddfwriaeth; ***Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014***, i ddiwygio ac integreiddio cyfraith gwasanaethau cymdeithasol, a ***Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015***, sy'n pennu nodau lles ar gyfer awdurdodau cyhoeddus, gyda'r nod o wella lles Cymru nawr ac yn y dyfodol.

Mae **adroddiad diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol** ar les yn dangos, er nad oedd lefelau lles personol ar gyfartaledd yn wahanol iawn i'r DU, bod cyfran fwy o bobl wedi dweud eu bod yn sgorio lles personol 'gwael'.





Yn 2018, adroddodd cyfran fwy o bobl (am y tro cyntaf ers 2012) sgorau isel ar gyfer pob un o'r tri mesur cadarnhaol o les personol **o'i gymharu â gweddill y DU**.

Bu ffocws cynyddol ar iechyd meddwl yn y Cynulliad dros y degawd diwethaf. Yn unigryw yn y DU, nod ***Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010*** (a gychwynnwyd gan Aelod Cynulliad y meinciau cefn), oedd hwyluso mynediad cynharach at wasanaethau iechyd meddwl a gwella gofal a chynllunio triniaeth ar gyfer cleifion.

Yn ddiweddar, mae pwyllgorau'r Cynulliad wedi bod yn tynnu sylw at iechyd meddwl, gan roi pwysau cynyddol ar Lywodraeth Cymru i wella gwasanaethau. Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn parhau i yrru'r agenda yn ei blaen, yn dilyn cyhoeddi ei **adroddiad Cadernid Meddwl** yn 2018 ar iechyd emosiynol ac iechyd meddwl pobl ifanc. Roedd **adroddiad dilynol y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar atal hunanladdiad** yn cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod iechyd meddwl yn cael yr un sylw ag iechyd corfforol.

Mae Cymru yn wynebu heriau iechyd a gofal sylweddol. Gellir gweld enillion clir dros amser mewn meysydd fel ysmygu, ond mae sawl mater yn parhau i beri pryder, gan gynnwys y lefelau gorbwysau a gordewdra cynyddol, cynnydd mewn cyflyrau cronig a salwch meddwl. Gellid disgwyl hefyd i effaith bylchau anghydraddoldeb iechyd ar ffactorau risg allweddol fel deiet, anweithgarwch corfforol, a gordewdra gynyddu yn y dyfodol os na chânt sylw ar frys.

## Ffynonellau defnyddiol

- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, **Llesiant Personol yn y DU** (2018)
- Iechyd Cyhoeddus Cymru, **Rhaglen Mesur Plant 2017/18** (2019)
- Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, **Iechyd a'i phenderfynyddion yng Nghymru** (2018)
- Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, **Marwolaethau yng Nghymru 2002 i 2016** (2018)
- Llywodraeth Cymru, **Ymgynghoriad Pwysau Iach: Cymru Iach** (2019)
- Llywodraeth Cymru, **Arolwg Cenedlaethol Cymru: iechyd poblogaethau** (2019)
- Llywodraeth Cymru, **Arolwg Iechyd Cymru 2003/04** (2015)

# Addysg: A yw 'wedi'i wneud yng Nghymru'?

Mae datganoli wedi rhoi'r cyfle i lunwyr polisi ddatblygu dull gweithredu penodol i Gymru ym maes addysg. Ym mlynyddoedd cynnar y Cynulliad, cafodd strategaeth **Y Wlad sy'n Dysgu (2001)** ei disgrifio fel "dogfen nodedig i'r rhai a oedd yn gobeithio y byddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn gwneud mwy na gweithio ar ymylon y broses o lunio polisi addysgol, ond y byddai hefyd yn creu gweledigaeth ehangach o system addysg i wasanaethu'r genedl" (Gareth Elwyn Jones a Gordon Wynne Roderick, ***A History of Education in Wales, 2003***, a gafodd ei ddyfynnu yn *Testing Times* gan Philip Dixon, 2016).

## Addysg cyn-16

**Dull gweithredu 'wedi'i wneud yng Nghymru'?**

Yn 2002, fel rhan o ddatganiad y Prif Weinidog ar y pryd, Rhodri Morgan, am **"ddŵr coch clir"** rhwng Cymru a Lloegr, daeth Llywodraeth Cymru â'r Tasgau Asesu Safonol (TASau) i ben yng Nghyfnodau Allweddol 1, 2 a 3. Hefyd, rhoddwyd y gorau i gyhoeddi perfformiad disgyblion ar lefel ysgol (a ddefnyddir yn aml i gynhyrchu 'tablau cynghrair ysgolion').

Fe wnaeth y **Cyfnod Sylfaen**, a gyflwynwyd rhwng 2004 a 2009, ddod â dull newydd o ddysgu ar gyfer plant ifanc, yn seiliedig ar ddysgu drwy brofiad a dysgu trwy chwarae. Mae'n parhau i fod yn bolisi blaenllaw ac mae'r egwyddorion y mae wedi'u seilio arnynt bellach yn helpu i lunio'r **cwricwlwm newydd 3-16 oed**.

Ar ben arall y sbectrwm oedran ysgol, mae **Bagloriaeth Cymru**, a gyflwynwyd rhwng 2003 a 2007, ac a ddiwygiwyd yn 2015, wedi ceisio rhoi sylfaen sgiliau ehangach i bobl ifanc i'w paratoi'n well ar gyfer addysg uwch a'r gweithle. Yn ddiweddar, cynhaliodd un o bwyllgorau'r Cynulliad **ymchwiliad i Fagloriaeth Cymru**, gan gyhoeddi adroddiad yn cydnabod pa mor ganolog y mae'r cymhwyster i ddysgu a datblygu pobl ifanc ac argymell sut y gellir codi ei statws.

Enghraifft arall yw'r cynllun brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd. Cyflwynwyd y cynllun yn 2004, gyda'r nod o wella gallu disgyblion i ganolbwyntio ac felly gwella'u cyrhaeddiad.





Yn fwy diweddar, mae'r dull 'wedi'i wneud yng Nghymru' hwn ym maes addysg wedi arwain at **system cymwysterau Cymru**, proses hir a phellgyrhaeddol i **ddiwygio'r system Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)**, a'r gwaith pellgyrhaeddol sydd ar y gweill i gyflwyno **Cwricwlwm newydd i Gymru**. Mae llawer o waith craffu wedi bod ar y diwygiadau AAA dros nifer o flynyddoedd, gyda phwyllgorau'r Cynulliad yn fwyaf diweddar yn craffu ar ***Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018*** a'r **Côd ADY drafft**.

**Gogwyddo tuag at PISA?**

Mae datblygiadau rhyngwladol hefyd wedi dylanwadu ar waith Cymru i wella ysgolion, yn fwyaf nodedig y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) a'i Raglen Ryngwladol ar gyfer Asesu Myfyrwyr (PISA).

Ychydig dros ddegawd ers datganoli, fe wnaeth cyhoeddi canlyniadau PISA 2009 yn 2010 roi'r hyn y gwnaeth y Gweinidog Addysg ar y pryd, **Leighton Andrews, ei alw** yn 'ysgytwad i system hunanfodlon' a 'thystiolaeth o fethiant systemig'. Arweiniodd **canlyniadau PISA siomedig Cymru** at ffocws o'r newydd ar atebolrwydd ysgolion, gan ddychwelyd at hanfodion llythrennedd a rhifedd, a dull gweithredu rhanbarthol newydd i wella ysgolion, a nodwyd oll yng **nghynllun ugain pwynt** y Gweinidog ar y pryd. Yn dilyn hyn, roedd cyfnod Huw Lewis yn Weinidog, a ganolbwyntiodd ar fynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad isel. Dros amser, bu **cydnabyddiaeth hefyd bod angen i Gymru wella cymorth ar gyfer dysgwyr mwy galluog a thalentog** os yw mwy ohonynt am ennill y graddau uchaf.


Galwyd yr OECD i mewn i helpu i ddod o hyd i atebion. Fe wnaeth ei adroddiadau yn **2014** a **2017** helpu i lywio cynlluniau gweithredu addysg Llywodraeth Cymru, sef *Cymwys am Oes* ac ***Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth Ein Cenedl 2017-2021*** yn y drefn honno.

Ers ei phenodi'n Weinidog ym mis Mehefin 2016, mae Kirsty Williams wedi parhau i fwrw ymlaen â'r diwygiadau addysg a oedd eisoes ar y gweill, fel datblygu cwricwlwm newydd, diwygio datblygiad proffesiynol athrawon, gwella arweinyddiaeth addysgol a mynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad yn sgil amddifadedd. Fodd bynnag, yn dilyn ei **chytundeb ym mis Mehefin 2016 gyda'r Prif Weinidog ar y pryd, Carwyn Jones** (wedi'i ddiweddaru ym mis Rhagfyr 2018 yn ei **chytundeb gyda'r Prif Weinidog newydd, Mark Drakeford**), mae Kirsty Williams hefyd wedi dod â'i blaenoriaethau ei hun i'r amlwg.

Mae'r rhain yn cynnwys helpu ysgolion bach a gwledig i fod yn hyfyw a lleihau maint dosbarthiadau babanod. Mae'r olaf yn mynd yn ôl i **ddyddiau cynharaf datganoli**, pan gyflwynwyd y terfyn statudol presennol o 30 o ddisgyblion yn 2001. Gyda Kirsty Williams fel gweinidog, mae Llywodraeth Cymru wedi adfywio'r polisi hwn ac mae'n ceisio **lleihau maint dosbarthiadau gyda 29 neu fwy o ddisgyblion** mewn ysgolion sy'n tanberfformio a lle mae llawer o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Gan ddychwelyd at PISA, bydd cyhoeddi canlyniadau 2018 ym mis Rhagfyr 2019 yn rhoi sylw pellach i gynnydd Llywodraeth Cymru o ran codi safonau ysgolion, yn enwedig o ystyried ei **tharged o gyflawni 500 o bwyntiau** ym mhob un o'r tri maes erbyn 2021. Ers y **'sioc i'r system'** a gafwyd gan PISA 2009, nid yw'r canlyniadau dilynol wedi gwella'n sylweddol yng Nghymru fel y mae'r ffeithlun isod yn ei ddangos.

## Addysg uwch




*Ffynhonnell: UCL, Achievement of 15 Year Olds in Wales: PISA 2015 National Report (2016) OECD UK country note (2016)*

Mae sefydliadau addysg uwch yn sefydliadau ymreolaethol, felly mae gallu gwneuthurwyr polisi i effeithio'n uniongyrchol ar ddull gweithredu 'wedi'i wneud yng Nghymru' yn fwy cyfyngedig nag yn achos ysgolion. Fodd bynnag, mae datganoli wedi gweld newidiadau sylweddol yn y sector addysg uwch, a gallai deddfwriaeth a ddisgwylir yn ystod y flwyddyn nesaf weld Llywodraeth Cymru yn diwygio'n sylweddol y broses strategol o gynllunio a chyllido'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ehangach.




**Datganoli 20:** 20 mlynedd o ddatganoli – sut mae Cymru wedi newid?

Un o'r enghreifftiau mwy gweladwy o'r gwahaniaeth rhwng Cymru a Lloegr yw'r cymorth ariannol i fyfyrwyr. Er enghraifft, ers 2012, mae myfyrwyr Cymru yn cael Grant Ffioedd Dysgu mwy sy'n rhoi grant heb brawf modd iddynt i dalu cost ffioedd dysgu uwch. Fodd bynnag, mae'r system yn amrywio ymhellach yn dilyn **Adolygiad Diamond** a'r penderfyniad i beidio â rhoi Grant Ffioedd Dysgu i fyfyrwyr newydd o fis Medi 2018 ymlaen, a hynny fel rhan o'r pwyslais i'w helpu i dalu am gostau byw.

**Nifer a maint sefydliadau addysg uwch**

Ers 1999, mae Llywodraeth Cymru wedi mynd ati i geisio llunio maint a strwythur y sector addysg uwch yng Nghymru. Mae maint y newid hwn i'w weld isod.

Felly sut gwnaeth newid o'r fath ddigwydd?




Yn 2002, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei strategaeth addysg uwch ***Ymgeisio yn Uwch***, a oedd yn egluro bod yn 'rhaid i ail-gyflunio a chydweithio fod wrth wraidd y strategaeth ar gyfer addysg uwch yng Nghymru'.

Ar ôl nifer o achosion o uno a chydweithredu o dan strategaeth Ymgeisio yn Uwch a strategaeth addysg uwch newydd Llywodraeth Cymru, ***Er Mwyn Ein Dyfodol*** (2010), cafodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) y dasg o ddatblygu dimensiwn rhanbarthol ar gyfer cynllunio a darparu. Nododd ei **Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer 2010** fod:

gormod o'n prifysgolion yn rhy fach yn ôl safonau'r DU, a bod gennym ormod o sefydliadau, a bod hyn yn codi cwestiynau ynghylch cystadleurwydd a chynaliadwyedd.

Yn 2010, ar ôl i Leighton Andrews, y Gweinidog Addysg ar y pryd, rybuddio prifysgolion fod yn rhaid iddynt **addasu neu farw**, cyhoeddodd CCAUC ei argymhellion ar **ddyfodol addysg uwch yng Nghymru**. Roedd y rhain yn awgrymu newid radical – sef cyfuno sefydliadau yn y sector a chreu dim mwy na chwe sefydliad addysg uwch. Arweiniodd y cynlluniau hyn at uno Prifysgol Cymru, Casnewydd a Phrifysgol Morgannwg a sefydlu Prifysgol De Cymru.

Yn wreiddiol, roedd y **cynnig hwn i greu'r hyn a fyddai'n datblygu'n Brifysgol De Cymru yn cynnwys Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd (UWIC)**, sef Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn awr. Fodd bynnag, fe wnaeth corff llywodraethu'r Athrofa **wrthwynebu ymgais Llywodraeth Cymru** i'w diddymu a daeth hyn yn arwydd o ymreolaeth y prifysgolion.

Yn wahanol i'r polisi cenedlaethol bwriadol o newid wedi'i gynllunio, mae rhai sefydliadau wedi mynd ati i roi newidiadau ar waith eu hunain.

Penderfynodd rhai ohonynt arfer eu hannibyniaeth trwy dynnu'n ôl o ymbarél ffederal Prifysgol Cymru a gwneud cais am eu pwerau dyfarnu graddau eu hunain a'r hawl i ddefnyddio 'prifysgol' yn eu teitl.

Mae rhai wedi cymryd camau eu hunain i uno. Er enghraifft, penderfynodd Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan, Prifysgol Cymru ei hun, Prifysgol Fetropolitan Abertawe a Choleg y Drindod, Caerfyrddin uno fesul cam i ffurfio corff presennol Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Mae'r tabl isod yn dangos effaith cyfuno'r sector i nifer lai o sefydliadau mwy o faint, ac mae'n cynnig cymhariaeth eang (lle mae data ar gael) gyda'r sector addysg bellach. Wrth i nifer y sefydliadau ostwng ers datganoli a phob un yn cael y teitl prifysgol, mae cofrestriadau ac incwm wedi cynyddu'n gyffredinol.





| | 1999/2000 | 2017/2018 |
|---|---|---|
| Nifer y sefydliadau addysg uwch | 13 | 8 |
| Nifer y sefydliadau addysg bellach (o'i gymharu) | 28 | 14 |
| Nifer yr israddedigion amser llawn ar gyfartaledd fesul prifysgol yng Nghymru | 4,510 | 10,086 |
| Nifer y myfyrwyr ar gyfartaledd fesul sefydliad addysg bellach (ciplun 1 Rhag, ac eithrio hyfforddiant a'r rheini mewn sefydliadau addysg uwch) | 4,045 | 5,537 (2015) |
| Y nifer fwyaf o israddedigion amser llawn | Prifysgol Caerdydd: 12,140 | Prifysgol Caerdydd: 19,735 |
| Nifer leiaf o israddedigion amser llawn (ac eithrio Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru) | Coleg y Drindod: 1,100 | Prifysgol Glyndŵr: 2,665 |
| Cyfanswm yr incwm ar gyfartaledd fesul sefydliadu addysg uwch (prisiau termau real 2017-18 mewn miloedd) | £65,728 | £195,940 |


*Ffynhonnell: Archif Data HESA a StatsCymru*

**Nifer y bobl sy'n cyfranogi mewn addysg uwch**


Dros yr ugain mlynedd diwethaf, bu tuedd gyson i gyfran uwch o bobl ifanc 18 oed yn y DU fynd ymlaen i addysg uwch bob blwyddyn.

Mae'r graffeg isod yn dangos y duedd hon ers 2000 ar gyfer Cymru a Lloegr fel ei gilydd. Mae'r **gyfradd** gyfranogiad uwch wedi helpu i gynnal **niferoedd** recriwtio yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a hynny yn ystod cyfnod pan mae'r boblogaeth 18 oed yn y DU wedi gostwng dros dro.

### Cyfradd y myfyrwyr 18 oed sy'n cael lle drwy UCAS yng Nghymru a Lloegr, 1999-2018




### Y gwahaniaeth rhwng Cymru a Lloegr




*Ffynhonnell: Gwasanaethau Data UCAS*

**Newidiadau yn y ffordd y mae sefydliadau addysg uwch yn cael eu hincwm**

Drwy gydol yr ugain mlynedd diwethaf, mae sefydliadau wedi cael mwy o'u hincwm o ffioedd myfyrwyr a llai o incwm o grantiau canolog CCAUC.


O ganlyniad i'r penderfyniad i ddileu mesurau rheoli niferoedd myfyrwyr yng Nghymru a Lloegr o 2015/16, mae sefydliadau addysg uwch wedi gallu cynyddu nifer eu myfyrwyr a, drwy hynny, wedi gallu creu mwy o incwm drwy gyfrwng ffioedd dysgu.

Mae'r graffeg isod yn dangos sut y mae cyllid grant canolog a chyllid ffioedd dysgu myfyrwyr wedi newid, a sut y mae'r newid hwnnw wedi cyflymu ers cyflwyno ffioedd o £9,000 yn 2012/13.





### Grantiau Ffioedd Dysgu a'r Cynghorau Cyllido – Sefydliadau Addysg Uwch 1999-2017




*Ffynhonnell: Archif Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch*

*Archif Data HESA (noder ei bod yn bosibl na fydd modd cymharu ffigurau o 2014/15 ymlaen â'r ffigurau blaenorol oherwydd newidiadau cyfrifyddu)*

Mae'r dyfodol yn debygol o arwain at ddiwygiadau eraill, gan fod Llywodraeth Cymru yn cynnig, drwy ddeddfwriaeth yn y Cynulliad, dod ag addysg bellach, addysg uwch, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn y gymuned ynghyd o dan un comisiwn cynllunio a chyllido strategol hyd braich.

Byddai hyn yn arwain at ddiddymu CCAUC a Llywodraeth Cymru yn ildio cyllid a rheoleiddio addysg bellach i'r Comisiwn arfaethedig ar gyfer Addysg Drydyddol, Hyfforddiant ac Ymchwil. Nod y newidiadau hyn yw creu sector addysg ôl-16 sy'n cynnig llwybrau cynnydd clir a di-dor i ddysgwyr mewn unrhyw fath o sefydliad.

## Ffynonellau defnyddiol


- Sefydliad Addysg yr UCL, **Cyflawniad Pobl Ifanc 15 Oed yng Nghymru: Adroddiad Cenedlaethol PISA 2015** (2016)
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, **Strategaeth Gorfforaethol 2010** (2010)
- Llywodraeth Cymru, **Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl** (2017)
- Llywodraeth Cymru, **Er Mwyn Ein Dyfodol – Strategaeth a Chynllun Addysg Uwch yr 21ain Ganrif ar gyfer Cymru.** (2009)
- Llywodraeth Cymru, **Ymgeisio yn Uwch Strategaeth ar gyfer y sector addysg uwch yng Nghymru** (2002)
- Llywodraeth Cymru, **Adolygiad o gyllido addysg uwch a threfniadau cyllido myfyrwyr: adroddiad terfynol** (2015)

# Sut mae amgylchedd Cymru wedi newid?

Mae amgylchedd Cymru yn cynnwys llu o gynefinoedd cyfoethog. Ucheldir a thirwedd fynyddig sydd gennym yng Nghymru ac, mae'r hinsawdd yn wlypach na llawer o weddill y DU. Mae ei safle ar **ffin tri pharth cefnforol a hinsoddol**, ac un o amrediadau llanw mwyaf y byd, yn cyfuno i roi **myrdd o fywyd gwyllt** i Gymru. Mae ganddi 1,702 o filltiroedd o arfordir, traethau **arobryn**, a hi yw'r wlad gyntaf yn y byd i gael **llwybr troed arfordirol pwrpasol a chyflawn 870 o filltiroedd o hyd**.

Mae edrych yn ôl ar yr hyn sydd wedi newid yn amgylchedd Cymru dros ugain mlynedd y Cynulliad yn anodd; bydd gweithredoedd amgylcheddol tymor byr yn cael canlyniadau tymor hir, felly yn aml ni fyddwn yn gweld effaith gweithred, p'un ai'n gadarnhaol neu'n negyddol, am ddegawdau.

Mae stori'r ugain mlynedd diwethaf wedi canolbwyntio ar ddysgu am statws presennol yr amgylchedd, a'r tueddiadau tymor hwy sydd wedi arwain at y statws hwn. Rydym yn gwybod bod bioamrywiaeth yn parhau i ddirywio, ond bod cynhyrchiant ynni adnewyddadwy wedi cynyddu. Mae allyriadau carbon wedi gostwng yn arafach yng Nghymru na gweddill y DU ac, mewn gwirionedd, wedi cynyddu yn 2016 (y flwyddyn ddiweddaraf y mae ffigurau ar gael ar ei chyfer).

Mae Cymru wedi rhoi dulliau deddfwriaethol ar waith i reoli a diogelu'r amgylchedd yn gynaliadwy. Pasiodd y Cynulliad ***Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (LlCD) 2015*** sy'n gosod dyletswydd gyfreithiol ar Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill i weithredu'n unol â'r **egwyddor datblygu cynaliadwy** – gan sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae'r Ddeddf yn cynnwys **saith nod llesiant** – gyda'r ail nod, sef Cymru gydnerth, yn galw am y canlynol:

> Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid hinsawdd).

Yn cyd-fynd â hyn, pasiodd y Cynulliad ***Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016*** a gyflwynodd ddulliau i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol, sy'n golygu bod '**Cymru'n economi werdd a charbon isel, sy'n barod i addasu i effeithiau hinsawdd sy'n newid**'.






Ers 1999, mae Pwyllgorau'r Cynulliad wedi bod yn mynd ati i graffu ar Lywodraeth Cymru ar ei dull gweithredu o ran yr amgylchedd.

## Gorchudd tir ac amaethyddiaeth


Mae **ffigur 1** isod yn dangos gorchudd tir Cymru; ardaloedd amaethyddol, coedwigaeth a lled-naturiol yn bennaf, gyda llai na 6% o Gymru yn arwyneb artiffisial.




Ffigur 1: Map yn dangos gorchudd tir yn 2018. Ffynhonnell: Setiau data Corine Land Cover

Mae Cymru yn un o'r **gwledydd lleiaf coediog yn Ewrop** gyda dim ond tua 15% o dir y wlad wedi'i orchuddio gan goetir, o gymharu hyn â chyfartaledd yr UE, sef 37%. Mae **strategaeth bresennol** a **chynllun gweithredu pum mlynedd (2015-2020)** Llywodraeth Cymru yn ceisio cynyddu hyn gyda tharged o 2,000 hectar o blannu newydd bob blwyddyn.

Mae tir a ddefnyddir at ddibenion amaethyddol yn cyfrif am **90 y cant o gyfanswm arwynebedd tir** Cymru. Mae tirwedd, ansawdd pridd a hinsawdd Cymru yn golygu bod y **rhan fwyaf o'r tir wedi'i gyfyngu i bori defaid a gwartheg,** a ddangosir gan y rhaniad tir yn ôl defnydd yn ffigur 2:




*Ffigur 2: Rhaniad tir ar ddaliadau amaethyddol yn ôl defnydd, 2018*
*Ffynhonnell: Ystadegau ar gyfer Cymru 2018*

Yn 2017, roedd amaethyddiaeth yn cyfrif am **3.62% o gyflogaeth ranbarthol Cymru a 0.59% oedd cyfanswm y gwerth ychwanegol gros yn 2016.** Er mai **£34,600 oedd incwm busnesau ffermio Cymru yn 2017-18** ar gyfartaledd, mae incwm ffermydd yng Nghymru yn parhau i ddibynnu'n helaeth ar gymorthdaliadau. Fodd bynnag, **mae polisi amaethyddol ar draws y DU yn newid** wrth iddi ymadael â system gymorthdaliadau bresennol **Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yr UE** sydd wedi bod yn sail i'r diwydiant ffermio yn y DU ers degawdau.

Mae tirweddau sydd o bwysigrwydd cenedlaethol yng Nghymru wedi'u dynodi fel Parciau Cenedlaethol neu Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). **At ei gilydd, mae'r Tirweddau Dynodedig hyn yn cwmpasu tua 25% o Gymru,** ac yn cyfrannu at gyfres o **ardaloedd gwarchodedig a safleoedd arbennig** sydd wedi'u dewis oherwydd eu bywyd gwyllt, eu harddwch golygfaol neu eu gwerth fel safleoedd daearegol. Mae'r rhain yn cynnwys **mwy na 1000 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig** (SoDdGA) fel y safleoedd pwysicaf ar gyfer treftadaeth naturiol Cymru, gan gwmpasu tua 12% o arwynebedd y wlad.

O ystyried pwysigrwydd amaethyddiaeth a'r amgylchedd naturiol, mae pwyllgorau'r Cynulliad wedi dangos diddordeb mawr yn y pwnc yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf. Roedd galluogi ffermwyr i dderbyn taliadau am ffermio mewn ffyrdd sydd o fudd i'r amgylchedd yn bwnc y rhoddwyd sylw iddo gan **Bwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig** y Cynulliad Cyntaf, ac yn parhau i gael





ei drafod gan Bwyllgor **Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig** (NHAMG) y Cynulliad presennol.

## Y môr a physgodfeydd

**Mae dros 60% o boblogaeth Cymru yn byw ac yn gweithio o amgylch yr arfordir**. Mae moroedd Cymru yn cefnogi miloedd o swyddi ar draws ystod o sectorau ac yn rhoi llawer o adnoddau i ni.

Mae sector pysgota Cymru yn **wahanol o ran maint a natur i fannau eraill yn y DU**. Yn 2017, roedd **450 o gychod wedi'u cofrestru ym mhorthladdoedd Cymru a 756 o bysgotwyr yn cael eu cyflogi** yn y sector. Pysgod cregyn yw dau draean o'r hyn sy'n cael ei ddal gan gychod Cymru yn ôl eu gwerth. **Caiff 90% eu hallforio i'r UE ac i Asia**drwy gytundebau masnach estynedig yr UE.

Mae'r sector wedi'i lywio gan aelodaeth y DU o **Bolisi Pysgodfeydd Cyffredin (PPC) yr UE**). Fodd bynnag, pan fydd y DU yn gadael yr UE, bydd yn gadael y PPC hefyd, gan olygu y bydd angen **cyflwyno deddfwriaeth i reoli ei dyfroedd ei hun**, ac y bydd potensial ar gyfer newidiadau sylweddol yn y polisi pysgodfeydd yng Nghymru. Mae pysgodfeydd yn fater datganoledig ac, fel y cyfryw, mae Pwyllgorau'r Cynulliad wedi bod **yn mynd ati i baratoi at y newid hwn**.

Mae gan Gymru **133 o ardaloedd morol gwarchodedig (AMG)**, sy'n cyfateb i 69% o foroedd Cymru. Mae'r rhain yn ceisio **diogelu ein moroedd** a'u gwneud yn fwy cydnerth i newid.

Mae'r **Pwyllgor NHAMG** wedi trafod **effeithiolrwydd rheoli AMG,** gan argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi mwy o flaenoriaeth ac arweinyddiaeth 'yn ddi-oed'. Mewn ymateb, yn 2018, cyhoeddwyd **Fframwaith** a **Chynllun Gweithredu** Rheoli Rhwydwaith AMG.

## Bioamrywiaeth

**Argymhellodd Pwyllgor Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth y Cynulliad Cyntaf** y canlynol:


> bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi arweiniad yn y maes trwy roi rhan ganolog i ystyriaethau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth yn ei pholisïau a'i blaenoriaethau hi, a rhai'r cyrff y mae'n eu noddi

Yn dilyn hynny, mae ymchwiliadau bioamrywiaeth wedi'u cynnal gan Bwyllgorau'r **trydydd** a'r **pedwerydd** Cynulliad, ac mae bioamrywiaeth Cymru wedi codi'n raddol ar yr agenda wleidyddol, gan arwain at **basio *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016* gan y Pedwerydd Cynulliad**.

Lluniodd grwpiau cadwraeth natur yr adroddiad '**Sefyllfa Byd Natur'** yn 2013 ac eto yn 2016. Mae'r pennawd cyffredinol i Gymru yn llwm gan fod **un o bob 14 rhywogaeth ar y trywydd i ddiflannu**.

Trafododd **adroddiad 2016** nifer o rywogaethau tir a gosododd Gymru yn y pumed isaf o'r 218 o wledydd a ddadansoddwyd, gan nodi bod 'ecosystemau o bosib wedi cwympo'n is na'r pwynt lle gellir dibynnu arnyn nhw i ateb anghenion cymdeithas'.

Dangosir tueddiadau yn nifer a dosbarthiad rhywogaethau penodol isod. Mae'r gwerthoedd yn dangos canran y rhywogaethau a aseswyd sydd wedi cynyddu, gostwng neu nad ydynt wedi dangos llawer o newid. Er enghraifft, o'r 30 o rywogaethau o löynnod byw a aseswyd, mae 50% wedi dangos cynnydd cryf neu gymedrol rhwng 2002 a 2013.





*Ffigur 3: Canran y rhywogaethau ym mhob categori tuedd dros y tymor hir a'r tymor byr. Mae'r gwerthoedd mewn cromfachau'n dangos nifer y rhywogaethau a aseswyd.*
*Ffynhonnell: Adroddiad Sefyllfa Byd Natur 2016 Cymru*





## Newid hinsawdd

Mae'n debygol y bydd **cynnydd parhaus yn nhymheredd y byd** yn cael effeithiau dwys ar system hinsawdd y Ddaear. Yn unol â thymheredd y byd, mae tymheredd cymedrig blynyddol Cymru wedi parhau i gynyddu ers 1999:




*Ffigur 4: Tymheredd cymedrig blynyddol Cymru. Llinell dueddiadau linol yn dangos tymheredd cymedrig cynyddol. Yn seiliedig ar ddata'r Swyddfa Dywydd.*

Roedd Pwyllgor Cynaliadwyedd y Trydydd Cynulliad wedi mynd ati i graffu ar Lywodraeth Cymru (ar y pryd) ar ei chynnydd o ran cyfrannu at dargedau lleihau carbon y DU. Lluniodd **gyfres o chwe adroddiad ar leihau carbon (2007-2010)** a oedd yn cyfrannu at strategaeth y Llywodraeth i leihau carbon, gan nodi targedau i leihau nwyon tŷ gwydr 3 y cant o flwyddyn i flwyddyn, ac o leiaf ostyngiad o 40 y cant erbyn 2020.

Mae lleihau carbon yn parhau i fod yn uchel ar agenda'r Cynulliad, gyda'r **Pwyllgor NHAMG yn parhau i graffu ar Lywodraeth Cymru** ar ei chynnydd tuag at dargedau, **gan drafod y mater yn ei adroddiad newid hinsawdd blynyddol cyntaf erioed**, a chynnal **dadl yn y Cyfarfod Llawn**.

Ym mis Mehefin 2018, cyhoeddodd Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd ei **Adroddiad Cynnydd 2018 i Senedd y DU**. Dangosodd fod cyfanswm yr allyriadau yng Nghymru wedi cynyddu 5% yn 2016, ar ôl i gyfanswm yr allyriadau leihau yn 2014 a 2015. Mae allyriadau yng Nghymru wedi lleihau 14% ers 1990. Mae cynnydd yng Nghymru wedi bod yn arafach nag yn y DU drwyddi draw, yn rhannol oherwydd bod gan Gymru gyfran fwy o lawer o allyriadau diwydiannol.

Gosododd ***Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016*** ddyletswyddau newydd ar Lywodraeth Cymru i ostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr 80% erbyn 2050, ac mae **rheoliadau cysylltiedig** yn pennu'r trywydd a'r dull o gyflawni'r newid carbon isel hwn. Ym mis Mawrth 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel** – gan nodi cynllun traws-lywodraethol a thraws-sector ar gyfer gostwng allyriadau.

Ar 29 Ebrill 2019 datganodd Llywodraeth Cymru **argyfwng hinsawdd** yng Nghymru, gan obeithio y byddai hyn yn "sbarduno ton o weithredu yma ac yn rhyngwladol". Mae'r Llywodraeth **wedi derbyn cyngor** gan Bwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd ynghylch yr opsiynau sydd gan Gymru o ran gosod targedau sero net ar gyfer allyriadau carbon a nwyon tŷ gwydr eraill yn y dyfodol.

Mae Cymru yn parhau i fod yn un o'r ardaloedd gwaethaf o ran **ansawdd aer yn y DU** – mae llygredd aer yn cyfrannu at oddeutu 2,000 o farwolaethau'r flwyddyn. Gall gweithredu ar newid hinsawdd helpu i fynd i'r afael â'r **argyfwng iechyd cyhoeddus** hwn.

## Ynni


Mae ynni wrth wraidd yr her newid hinsawdd. Craffwyd ar bolisi ynni gan **Bwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Pedwerydd Cynulliad** yn **2012** a **2016**, gan argymell bod yn rhaid i Gymru 'bennu gweledigaeth glir ar gyfer ei pholisi ynni yn y dyfodol'.

Yn 2016, roedd y sector pŵer yn gyfrifol am **34% o gyfanswm allyriadau Cymru**. Yn ôl yr adroddiad, **Cynhyrchu ynni yng Nghymru 2017**, daeth 78% o'r trydan a gynhyrchwyd yng Nghymru o safleoedd tanwydd ffosil yn 2017, gyda'r 22% sy'n weddill wedi'i gynhyrchu o ffynonellau adnewyddadwy.


Mae cynhyrchiant trydan adnewyddadwy yn cynyddu tuag at **darged ynni adnewyddadwy Llywodraeth Cymru, sef 70% erbyn 2030**:








*Ffigur 5: Twf yng nghanran y defnydd o drydan o ffynonellau adnewyddadwy yng Nghymru.*
*Ffynhonnell y data: Llywodraeth Cymru, Cynhyrchu Ynni yng Nghymru 2017*




*Ffigur 6: Twf yng nghanran y trydan o ffynonellau adnewyddadwy yng Nghymru.*
*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Cynhyrchu Ynni yng Nghymru 2017*

## Gwastraff

Ers 1999, mae cyfradd ailgylchu Cymru wedi codi o **lefel ychydig yn is na 5% i 64% yn 2017** – y **drydedd orau yn y byd a'r ail orau yn Ewrop**.

Yn 2011, cyflwynodd Cymru ofyniad i godi tâl am y **rhan fwyaf o fagiau siopa untro**. Hi oedd y wlad gyntaf yn y DU i wneud hynny. Cychwynnwyd hyn drwy ddeiseb i Bwyllgor **Deisebau'r** Cynulliad, gyda rhagor o waith yn cael ei ddatblygu gan y Pwyllgor **Cynaliadwyedd** (ar y pryd).

Yn ystod 2009-10, **amcangyfrifir** y rhoddwyd 350 miliwn o fagiau siopa i gwsmeriaid gan yr archfarchnadoedd mawr. Rhwng 2011 a 2014, **amcangyfrifir y bu 70% o ostyngiad**, i 77 miliwn o fagiau siopa untro.

Yn ddiweddarach, **bu ffocws** ar newid tuag at economi gylchol, lle nad yw cynhyrchion/deunydd pacio byth yn dod yn wastraff, ond yn cyfrannu'n gadarnhaol at yr economi.

## Edrych tua'r dyfodol

Mae ein dealltwriaeth o wendidau ein hamgylchedd, effeithiau newid hinsawdd a gweithredoedd pobl i gyd â rhan i'w chwarae wrth ddatblygu deddfwriaeth, polisi ac arfer yn y dyfodol.

Yn benodol, bydd effaith Brexit ar amaethyddiaeth a physgodfeydd, ac ar y **strwythurau a'r egwyddorion sy'n diogelu amgylchedd Cymru**, yn allweddol yn y blynyddoedd i ddod.

Nid ydym eto wedi gweld pa effaith y bydd Deddf LlCD a Deddf yr Amgylchedd yn ei chael, ond mae'n amlwg bod angen gwaith sylweddol er mwyn atal dirywiad ecosystem, a diogelu bioamrywiaeth Cymru os ydym am gadw ac adfer ein hamgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

## Ffynonellau defnyddiol

- Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, **Reducing UK emissions – 2018 Progress Report to Parliament** (2018)
- Partneriaeth Sefyllfa Byd Natur, **State of Nature Report** (2013 a 2016)
- Llywodraeth Cymru, **Cynhyrchu ynni yng Nghymru** (2018)
- Llywodraeth Cymru, **Adolygiad ôl-weithredu codi tâl ar fagiau siopa untro yng Nghymru** (2016)
- Llywodraeth Cymru, **Arolwg o'r cyfrifiad amaethyddol a garddwrol** (2018)






# Yr economi yng Nghymru: Amser i ganolbwyntio ar y sylfeini?

Gwelwyd perfformiad economaidd cymysg yng Nghymru dros yr ugain mlynedd diwethaf. Cafwyd gwelliannau yn y gyfradd gyflogaeth, yn enwedig i fenywod. Fodd bynnag, mae effeithiau cadarnhaol y gwelliannau hyn ar allbwn yr economi yng Nghymru wedi cael eu dileu i raddau helaeth gan ddirywiad cymharol mewn cynhyrchiant.

Felly, ar sail Gwerth Ychwanegol Gros, sef y prif ddangosydd, mae safle Cymru yn nhabl cynghrair economaidd y DU wedi bod yn gymharol ddigyfnewid ers 1999. Mae hyn wedi arwain Llywodraeth Cymru i gynnig dull newydd o ymdrin â datblygu economaidd, sy'n canolbwyntio ar yr "economi sylfaenol". Efallai na fydd llwyddiant y dull hwn yn weladwy ar ddangosyddion lefel uchel traddodiadol – megis Gwerth Ychwanegol Gros – a bydd angen defnyddio dull mwy hyblyg o fesur.

Gwerth Ychwanegol Gros y pen, 1999-2017 (Mynegai: y DU = 100)




*Ffynhonnell: Cyfrifon Rhanbarthol, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol*

## Gwerth Ychwanegol Gros y pen


Mae Gwerth Ychwanegol Gros yn fesur o gyfanswm gwerth y nwyddau a'r gwasanaethau a gynhyrchir mewn ardal. Mae hefyd yn dangos cyfanswm gwerth yr incwm a gynhyrchir mewn ardal (ond ni fydd yr holl incwm hwn o reidrwydd yn cael ei dderbyn gan bobl sy'n byw yng Nghymru).

Er ei fod yn cael ei gydnabod fel offeryn bras, defnyddir ystadegau Gwerth Ychwanegol Gros i roi trosolwg o berfformiad economaidd ar lefel ranbarthol ac is-ranbarthol, sy'n caniatáu cymharu rhwng gwledydd a rhanbarthau'r DU. Hefyd, dros yr 20 mlynedd diwethaf, defnyddiwyd amcangyfrifon Gwerth Ychwanegol Gros fesul pen i lywio dyheadau neu olrhain canlyniadau cyffredinol llywodraethau olynol.

Ym mhob blwyddyn ers 2000, Cymru sydd â'r Gwerth Ychwanegol Gros isaf fesul pen o wledydd y DU a rhanbarthau Lloegr (12 at ei gilydd). Er bod y Gwerth Ychwanegol Gros fesul pen yng Nghymru wedi cynyddu'n ddiweddar (26.6 y cant rhwng 2009 a 2017, sef y trydydd cynnydd mwyaf o'r 12 o wledydd a rhanbarthau y DU), nid yw hyn wedi bod yn ddigon i newid safle Cymru.

## Cyflogaeth

### Cyfradd cyflogaeth (oedran 16–64) fesul ardal a rhyw, 1999 a 2018




*Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol*

Mae'r bwlch yn y cyfraddau cyflogaeth rhwng Cymru a'r DU yn sylweddol well ers 1999. Mae'r gwelliant yn y gyfradd gyflogaeth wedi bod yn arbennig o arwyddocaol i fenywod yng Nghymru, gyda chyfraddau cyflogaeth yn codi o 60.8% ym 1999 i 69.6%t yn 2018. Dros yr un cyfnod, cododd y gyfradd gyflogaeth ar gyfer menywod yn y DU o 64.9% ym 1999 i 70.5% yn 2018.






Mae'r gyfradd gyflogaeth hefyd wedi gwella yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, ardal sydd ers 2000 wedi elwa ar y lefel uchaf o gymorth ariannol sydd ar gael drwy dair rownd olynol o Gronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd. Yn ôl **Llywodraeth Cymru**, yn ystod y degawd diwethaf mae prosiectau a ariennir gan yr UE wedi creu 47,000 o swyddi newydd a 13,000 o fusnesau newydd ledled Cymru, yn ogystal â helpu mwy nag 85,000 o bobl i gael gwaith.

Er bod y gwelliant yn y gyfradd gyflogaeth yn gam cadarnhaol, mae heriau'n parhau mewn perthynas â'r farchnad lafur yng Nghymru. Er enghraifft, mae **43,000 o bobl ar gontractau dim oriau** ar hyn o bryd yng Nghymru, sy'n cynrychioli 5 y cant o gyfanswm y bobl yn y DU ar y math hwn o gontract. Mae tlodi mewn gwaith hefyd yn fater parhaus; ar hyn o bryd **amcangyfrifir** bod 270,000 o oedolion o oedran gweithio mewn tlodi incwm cymharol er gwaethaf y ffaith eu bod yn byw ar aelwydydd lle mae o leiaf un oedolyn yn gweithio – mae hyn yn gynnydd o 35 y cant yn yr wyth mlynedd diwethaf.

## Cynhyrchiant

### Cynhyrchiant: Gwerth Ychwanegol Gros fesul awr a weithir, 1999-2017 (mynegai: y DU = 100)




*Ffynhonnell: Ystadegau Cynhyrchiant Llafur, Y Swyddfa Ystadegau*


Mae cynhyrchiant yn ddangosydd economaidd pwysig i'w ystyried gan ei fod yn mesur pa mor effeithiol y mae economi yn defnyddio ei hadnoddau (llafur a chyfalaf). Defnyddir y Gwerth Ychwanegol Gros fesul awr a weithir fel mesur o gynhyrchiant. Ar y sail hon, ar hyn o bryd, mae Cymru ar waelod y rhestr o 12 o wledydd a rhanbarthau yn y DU, gyda ffigur Gwerth Ychwanegol Gros fesul awr a weithiwyd sydd oddeutu 16 y cant yn is na'r gyfartaledd ar gyfer y DU.

Roedd y Gwerth Ychwanegol Gros fesul awr a weithiwyd ar gyfer Dwyrain Cymru yn 2017 yn 89.2% o'r ffigur ar gyfer y DU, a'r ffigur yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn 79.5% o'r gyfartaledd ar gyfer y DU.

Powys oedd â'r Gwerth Ychwanegol Gros fesul awr a weithiwyd isaf o'r 174 o ardaloedd NUTS3 (yr ardal ddaearyddol leiaf sy'n cael ei chynnwys fel rhan o'r ystadegau hyn) yn y DU yn 2017 (65.2% o'r ffigur ar gyfer y DU) a Gwynedd oedd â'r pumed isaf (71.9% o'r ffigur ar gyfer y DU). Sir y Fflint a Wrecsam oedd yr ardal NUTS3 uchaf yng Nghymru (96.4% o gyfartaledd y DU – sef safle 62 allan o'r 174 ardal NUTS3 yn y DU).

Er bod cynhyrchiant yng Nghymru wedi gwella rhywfaint o'i gymharu â'r DU ers 2010, rhwng 1999 a 2017 gostyngodd y Gwerth Ychwanegol Gros fesul pen yng Nghymru o 87.6 y cant i 83.7 y cant o gyfartaledd y DU. Mewn cymhariaeth, mae rhanbarthau a gwledydd fel Gogledd-ddwyrain Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi gwella eu cynhyrchiant i ryw raddau o'i gymharu â'r DU ers 1999.

## Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen, 1999-2016 (mynegai: y DU = 100)




*Ffynhonnell: Cyfrifon Rhanbarthol, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol*

## Incwm y cartref

Mae Incwm Gwario Gros Aelwydydd (GDHI) yn amcangyfrif o'r arian sydd gan aelwydydd i'w wario neu ei gynilo (mae 'fesul pen' yn amcangyfrif o'r gwerthoedd ar gyfer pob person, nid pob aelwyd). Yn ôl **Prif Economegydd Llywodraeth Cymru**, incwm aelwydydd sy'n cynrychioli'r mesur unigol gorau o les economaidd.





Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod gan berson cyffredin yng Nghymru yn 2016 £15,835 i'w wario neu ei gynilo (81.5 o gyfartaledd y DU o £19,432). Y ffigur ar gyfer 2016 yng Nghymru (y diweddaraf sydd ar gael) oedd y trydydd isaf o wledydd y DU a rhanbarthau Lloegr, sydd ychydig yn uwch na Gogledd Iwerddon a Gogledd-ddwyrain Lloegr.

Ers 1999, mae Cymru wedi gweld y cynnydd canrannol isaf ond dau o ran Incwm Gwario Gros Aelwydydd fesul pen allan o wledydd y DU a rhanbarthau Lloegr, sef cynnydd o 58.8 y cant o'i gymharu â chynnydd o 67.4 y cant ar draws y DU. Mae'r gyfradd twf is hon yn golygu bod y ffigur yn gwaethygu o'i gymharu â chyfartaledd y DU ers datganoli, fel y dangosir yn y siart Incwm Gwario Gros Aelwydydd isod.

Yn yr un modd, mae'r siart yn dangos bod yr Incwm Gwario Gros Aelwydydd fesul pen yn 'Nwyrain Cymru' a 'Gorllewin Cymru a'r Cymoedd' wedi gostwng o'i gymharu â chyfartaledd y DU er 1999. Y Cymoedd Canolog yw'r unig ardal NUTS3 yng Nghymru sydd wedi gwella o ran Incwm Gwario Gros Aelwydydd fesul pen o'i gymharu â chyfartaledd y DU dros y cyfnod hwn, gyda chynnydd o 72.8 y cant i 74.7 y cant.

## Amser i ganolbwyntio ar y sylfeini?

Mae polisïau datblygu economaidd olynol Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ar gefnogi casgliad o sectorau allweddol, a'r rheini'n seiliedig ar gymysgedd o arwyddocâd economaidd presennol a/neu potensial o ran twf.

Cyfeiriodd y strategaeth datblygu economaidd Cymru'n Ennill, a gyhoeddwyd yn 2001, at gefnogi sectorau twf allweddol. Ym mis Tachwedd 2005, roedd Cymru: Economi yn Ffynnu yn cynnwys rhestr o ddeg sector allweddol y nodwyd eu bod yn bwysig ar gyfer twf economaidd yn y dyfodol. Yn 2008, tyfodd y rhestr i 14 sector allweddol, cyn i Raglen Adnewyddu'r Economi gyhoeddi ffocws newydd Llywodraeth Cymru ar restr lai o chwe sector economaidd allweddol (Diwydiannau creadigol; Gwybodaeth, Cyfathrebu a Thechnoleg; Ynni a'r Amgylchedd; Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch; Gwyddorau Bywyd;a Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol). Cynyddwyd hyn i naw sector, gan ychwanegu Bwyd a Ffermio; Adeiladu, a Thwristiaeth.

Roedd **Cynllun Gweithredu ar yr Economi** Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017, yn amlinellu ei bwriad i gefnogi pedwar 'sector sylfaenol' – twristiaeth, bwyd, manwerthu a gofal. (Cyn hyn, lluniodd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau'r Cynulliad **adroddiad** ar yr hyn y gallai cynllun newydd Llywodraeth Cymru ei gynnwys – yr economi sylfaenol oedd un o'r meysydd a drafodwyd gan y Pwyllgor). Fodd bynnag, yn fwy diweddar, symudodd maniffesto y Prif Weinidog y pwyslais tuag at ddull ehangach o 'ddatblygu economaidd sylfaenol'.

Yn ddiweddar, tynnodd Lee Waters, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, sylw at y newid ym meddylfryd Llywodraeth Cymru at ddatblygu economaidd:

> We do have a will to shift this [Welsh economic performance], but 20 years of trying shows us it is not easy. We have thrown the proverbial kitchen sink at the Welsh economy and it hasn't budged.
>
> So while making sure we nurture the companies we have got, we also need to cast out in a different direction, to try something different, as our current approach has not produced the results we hoped it would.

Mae'r **economi sylfaenol** wedi ei seilio ar y gweithgareddau sy'n darparu'r nwyddau a'r gwasanaethau hanfodol ar gyfer bywyd bob dydd, ni waeth beth yw statws cymdeithasol defnyddwyr. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, gwasanaethau iechyd, addysg a lles; seilwaith; gwasanaethau cyhoeddus; prosesu bwyd, a manwerthu a dosbarthu.

Ystyrir bod yr economi sylfaenol yn bwysig oherwydd, yn wahanol i sectorau megis gweithgynhyrchu, er enghraifft, lle mae cynhyrchu wedi'i ganoli mewn ardaloedd penodol, mae'r economi sylfaenol yn cael ei rhannu'n genedlaethol ynghyd â'r boblogaeth. Mae'n cynnwys y diwydiannau a chwmnïau sydd yno am fod pobl yno. Felly ystyrir ei bod yn hanfodol i lawer o bobl yng Nghymru, nid yn unig o ran darparu'r nwyddau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, ond hefyd o ran cyflogaeth (mae amcangyfrifon yn awgrymu bod busnesau bach a chanolig sefydledig a chyflogwyr sylfaenol mawr yn cyfrif am o leiaf 40 y cant o'r gweithlu yng Nghymru ).

Nid yw'r manylion penodol yn glir hyd yn hyn, o ran dull arfaethedig Llywodraeth Cymru o ymdrin â'r maes, ac mae'r Dirprwy Weinidog wedi ei wneud yn glir na fydd Llywodraeth Cymru yn cefnu ar ei hymrwymiad i ddenu cwmnïau mawr i Gymru.

Fodd bynnag, mae'n ymddangos wrth geisio cefnogi'r economi sylfaenol, y bydd Llywodraeth Cymru yn gobeithio gwella ansawdd swyddi; annog twf a chadw busnesau lleol, sefydledig, a gwella gwytnwch economaidd cymunedau lleol.





Nid yw'r rhain yn bethau sy'n cael eu dangos gan ddangosyddion economaidd confensiynol. Er enghraifft, nid yw Gwerth Gros Ychwanegol, fel mesur llwyr o weithgarwch economaidd, yn dweud dim wrthym o ran sut y caiff y gwerth hwn ei ddosbarthu, na pha effaith y mae'n ei chael ar yr amgylchedd.


Mae mesurau eraill o berfformiad economaidd yn bodoli, ond hyd yn hyn nid ydynt wedi'u mabwysiadu'n helaeth gan lywodraethau. Er enghraifft, mae'r Mynegai Lles Economaidd Cynaliadwy yn ceisio cynnwys ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd mewn un mesur trwy gydbwyso allbwn economaidd â phethau fel dosbarthiad incwm a llygredd sy'n deillio o gynhyrchiant. **Fel y nodwyd gan eraill**, bydd angen i'r dull newydd ar gyfer datblygiad economaidd gynnwys casgliad newydd o ddangosyddion os ydym am ddeall yr effaith ar yr economi yng Nghymru.

## Ffynonellau defnyddiol

- Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, **Strategaeth Economaidd i Gymru: gwrando ar safbwyntiau amgen** (2017)
- Ymchwil y Senedd, **Yr economi sylfaenol** (2017)
- Llywodraeth Cymru, **Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi** (2017)

# O Gynulliad i Senedd?

Mae'r Cynulliad yn nodi 20 mlynedd ers iddo agor ei ddrysau ym 1999, yn dilyn pleidlais o blaid ei sefydlu yn refferendwm 1997 ac mae newidiadau sylweddol wedi bod i bwerau, cyfrifoldebau a strwythurau'r Cynulliad. Mae'r erthygl hon yn rhoi trosolwg byr o'r pum Cynulliad a gafwyd hyd yma, a'r modd y mae'r sefydliad a'i bwerau wedi newid dros y cyfnod dan sylw.




## Y Cynulliad Cyntaf (1999-2003)


Sefydlwyd y Cynulliad fel 'corff corfforaethol' o dan ***Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998***.Yn wahanol i'r rhan fwyaf o ddeddfwrfeydd, felly, golygai hyn bod y rhan weithredol (sef y rhan a ddaeth yn 'Llywodraeth Cymru' yn ddiweddarach) a'r rhan ddeddfu (sef y 'Cynulliad') yn un sefydliad. Nid oedd ganddo'r hawl i basio ei Ddeddfau ei hun. I ddechrau, roedd ond yn cael gwneud Gorchmynion a Rheoliadau, a elwir yn is-ddeddfwriaeth, a hynny mewn meysydd lle trosglwyddwyd pwerau o Weinidogion y DU drwy **Orchmynion Trosglwyddo Swyddogaethau**.

Yr enw a roddwyd i aelodau'r Cabinet yn wreiddiol oedd 'Ysgrifenyddion y Cynulliad', ond yn dilyn penodi Rhodri Morgan yn Brif Weinidog yn 2000, fe'i hadwaenir yn 'Weinidogion'. Yn ystod y flwyddyn honno, cytunodd y Cynulliad hefyd ar newidiadau i'w Reolau Sefydlog a fyddai'n creu 'swyddfa'r Llywydd' fel y cam cyntaf yn y broses o wahanu swyddogaethau deddfwriaethol y Cynulliad o'r swyddogaethau gweithredol. Defnyddiwyd y term 'Llywodraeth Cynulliad Cymru' am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2001.





Gwnaed symudiadau pellach tuag at wahanu'r swyddogaethau, a gwelliannau pwysig i rôl pwyllgorau'r Cynulliad er mwyn iddynt allu gwneud mwy o waith craffu ar y Llywodraeth, mewn argymhellion a wnaed yn **Adolygiad o Weithdrefnau'r Cynulliad** a gyhoeddwyd yn 2002.





## Yr Ail Gynulliad (2003-2007)

Ym mis Mawrth 2004, cyhoeddwyd **adroddiad Comisiwn Richard** ar bwerau a threfniadau etholiadol y Cynulliad. Dau o'r argymhellion allweddol yn yr adroddiad oedd:

- y dylai'r Cynulliad allu gwneud ei ddeddfau ei hun; ac
- y dylid gwahanu'r Cynulliad a 'Llywodraeth Cynulliad Cymru' yn ddau sefydliad cyfreithiol ar wahân.

Ym mis Mehefin 2005, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Bapur Gwyn, sef **Trefn Lywodraethu Well i Gymru ('Better Governance for Wales')**, a oedd yn nodi sut yr oedd Llywodraeth y DU yn bwriadu cyflawni'r ymrwymiadau polisi hyn. Ar yr adeg honno, roedd y Cynulliad yn gweithredu fel dau sefydliad ar wahân i'r graddau mwyaf posibl yn gyfreithiol, a hynny cyn i'r ddeddfwriaeth newydd basio drwy Senedd y DU.

Symudodd y Cynulliad i'w gartref newydd, sef **adeilad y Senedd**, ym mis Mawrth 2006.




## Y Trydydd Cynulliad (2007-2011)

Roedd yr argymhellion allweddol yn y ddogfen 'Trefn Lywodraethu Well i Gymru' wedi cael eu gweithredu gan ***Deddf Llywodraeth Cymru 2006***.

O ddechrau'r trydydd Cynulliad, roedd y Ddeddf yn creu gwahaniad cyfreithiol, ffurfiol rhwng:

- y gangen ddeddfwriaethol: 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru', a oedd yn cynnwys 60 Aelod Cynulliad; a'r
- gangen weithredol: a oedd yn dal i gael ei galw'n 'Llywodraeth Cynulliad Cymru', ac a oedd yn cynnwys y Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru, Dirprwy Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol.

Roedd Deddf 2006 yn caniatáu i'r Cynulliad, am y tro cyntaf, wneud ceisiadau i Senedd y DU am y pŵer i wneud deddfau. Yr enw a roddwyd i'r cyfreithiau hyn oedd **'**Mesurau Cynulliad Cenedlaethol Cymru' (Mesurau'r Cynulliad). Roedd y pŵer i ddeddfu ('cymhwysedd deddfwriaethol') yn cael ei roi i'r Cynulliad drwy gymalau ym Miliau San Steffan neu drwy Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol**.** Roedd yn rhaid i'r rhain gael eu cymeradwyo gan Senedd y DU a chan y Cynulliad.

Ym mis Ebrill 2008, cafwyd Cydsyniad Brenhinol i'r Gorchymyn cyntaf, a oedd yn trosglwyddo pwerau deddfu ym maes darpariaeth anghenion addysgol arbennig. Arweiniodd hyn at Fesur yn 2009 a oedd yn rhoi'r hawl i blant apelio i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru.






Daeth y darn cyntaf o ddeddfwriaeth sylfaenol a wnaed gan y Cynulliad, ar daliadau iawndal i gleifion y GIG yng Nghymru, yn gyfraith ym mis Gorffennaf 2008.

Roedd Deddf 2006 hefyd yn cynnwys **rhestr estynedig o faterion pwnc lle'r oedd pwerau deddfu** wedi'u datganoli i'r Cynulliad, ac ychwanegwyd at y rhestr hon yn barhaus yn ystod y deng mlynedd nesaf, tra bod y rhan berthnasol o Ddeddf 2006 mewn grym.

Roedd Deddf 2006 hefyd yn caniatáu i'r Cynulliad symud tuag at drefn o wneud ei ddeddfau ei hun heb ganiatâd Senedd y DU, ond dim ond ar ôl sicrhau pleidlais gadarnhaol mewn refferendwm.

Cafwyd pleidlais gadarnhaol yn y refferendwm hwn, a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2011, gyda 63.5 y cant o'r rhai a gymerodd ran yn pleidleisio o blaid dod â'r pwerau deddfu llawn hyn i rym.




Noder: Mae rhaniad rhwng y rhywiau yn cynnwys Eluned Parrott (Dem Rhydd) a ddaeth yn lle John Dixon (a gafodd ei ethol ond a gafodd ei anghymwyso bron yn syth).

## Y Pedwerydd Cynulliad (2011-2016)

O ganlyniad i'r refferendwm, roedd y Cynulliad bellach yn gallu pasio ei Ddeddfau ei hun heb ganiatâd Senedd y DU. Yn 2011, ailenwyd 'Llywodraeth Cynulliad Cymru' yn 'Llywodraeth Cymru'.

Y darn cyntaf o ddeddfwriaeth a basiwyd gan y Cynulliad oedd y Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) ym mis Gorffennaf 2012. Fodd bynnag, cyfeiriwyd y Bil hwn a dau Fil arall at y Goruchaf Lys yn ystod y Pedwerydd Cynulliad. Cyfeiriwyd y Bil Is-ddeddfau a'r Bil Sector Amaethyddol (Cymru) at y Goruchaf Lys gan y Twrnai

Cyffredinol, a oedd o'r farn nad gan y Cynulliad y pwerau i wneud y ddeddfwriaeth dan sylw. **Yn y ddau achos, roedd y Goruchaf Lys yn anghytuno â'r Twrnai Cyffredinol.**

Mewn trydydd achos, (Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)), **nid oedd y Goruchaf Lys yn cytuno â'r Cynulliad fod ganddo'r pwerau i wneud y ddeddfwriaeth**.

Ar ôl Etholiad Cyffredinol y DU yn 2010, sefydlwyd y **Comisiwn Silk** gan Lywodraeth y DU i edrych ar ragor o ddatganoli i Gymru. Yn gyntaf, edrychodd ar bwerau ariannol y Cynulliad ac argymhellodd y dylid rhoi pwerau dros rai trethi i'r Cynulliad. Cafodd yr argymhellion hyn eu troi'n gyfraith gan ***Ddeddf Cymru 2014***, a datganolwyd y pwerau i'r Cynulliad.

Yn yr ail gam, edrychodd **Comisiwn Silk** ar ba bwerau ychwanegol y gellid eu rhoi i'r Cynulliad. Yn sgil y ffaith bod Biliau'r Cynulliad yn cael eu cyfeirio at y Goruchaf Lys dro ar ôl tro, roedd rhai pobl yn dechrau cwestiynu'r model datganoli yng Nghymru. Roedd hwn yn fodel 'rhoi pwerau', lle'r oedd gan y Cynulliad yr hawl i wneud cyfreithiau ynghylch y meysydd pwnc a oedd wedi'u rhestru yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 yn unig. Roedd llawer yn meddwl y byddai'r darlun yn gliriach o gael Deddf newydd, sef Deddf a oedd yn rhestru'r pethau nad oeddent wedi'u datganoli (hynny yw, meysydd a oedd yn cael eu cadw yn ôl yn San Steffan), yn debyg i setliad yr Alban a Deddf yr Alban 1998.


Cyhoeddodd y Comisiwn ei adroddiad ym mis Mawrth 2014. Un argymhelliad allweddol yn yr adroddiad oedd symud i fodel cadw pwerau, lle mae'r pwerau a gedwir gan Lywodraeth y DU wedi'u rhestru, gyda phob pŵer arall wedi'i ddatganoli.

Yn dilyn Refferendwm Annibyniaeth yr Alban ym mis Medi 2014, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'r broses Dewi Sant yn ategu'r adolygiad a oedd yn cael ei gynnal ar ddatblygiadau cyfansoddiadol yn yr Alban. Cynhaliodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru gyfarfodydd gydag arweinwyr Cymreig y pleidiau yn San Steffan, gan ddefnyddio Adroddiad Silk fel sail i'w trafodaethau. **Roedd Pwerau at Bwrpas**, a gyhoeddwyd ychydig cyn Dydd Gŵyl Dewi 2015, yn nodi cynlluniau Llywodraeth y DU ar gyfer datganoli pellach, ac roedd y cynlluniau hyn yn cynnwys argymhelliad y dylai'r Cynulliad gael pwerau i newid yr oedran pleidleisio. Roedd consensws gwleidyddol hefyd ynghylch y ffaith y dylai'r Cynulliad gael ei gydnabod yn ffurfiol fel sefydliad parhaol, a bod hynny'n cael ei ymgorffori mewn deddfwriaeth, a bod ganddo'r pŵer i newid ei enw os yw'n dymuno gwneud hynny.



**Datganoli 20:** 20 mlynedd o ddatganoli – sut mae Cymru wedi newid?

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU hefyd y byddai'n cyflwyno Bil yn Senedd y DU a fyddai'n rhoi model 'cadw pwerau' i Gymru.




## Y Pumed Cynulliad (2016-2021)

Rhoddodd ***Deddf Cymru 2017*** y cynigion a nodwyd yn 'Pwerau at Bwrpas' ar waith. O ganlyniad, mae'r fersiwn ddiwygiedig o Ddeddf 2006 bellach yn rhestru'r holl feysydd pwnc (er enghraifft, amddiffyn) lle **nad oes** gan y Cynulliad yr hawl i ddeddfu yn eu cylch. Daeth **y setliad newydd i rym** ar 1 Ebrill 2018. Mae wedi arwain at bwerau cymhwysedd deddfwriaethol newydd i'r Cynulliad i'w alluogi i wneud cyfreithiau mewn meysydd polisi newydd amrywiol fel rheoleiddio tacsis, cofrestru gwasanaethau bws a ffracio.

Roedd Deddf 2017 hefyd yn cynnwys pwerau i'r Cynulliad newid ei enw ac i newid pwy all bleidleisio mewn etholiadau'r Cynulliad. Mae'r **Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)** yn cael ei drafod gan y Cynulliad ar hyn o bryd. Bydd y Bil, a gafodd ei gyflwyno gan **Gomisiwn y Cynulliad**, yn ail-enwi'r Cynulliad yn 'Senedd'. Honnir y bydd y cam hwn yn adlewyrchu statws y sefydliad yn well fel senedd. Bydd hefyd yn diwygio trefniadau etholiadol a gweithredol y Cynulliad, gan gynnwys gostwng yr oedran pleidleisio isaf i 16.

Mae prif ddarpariaethau'r Bil yn seiliedig ar argymhellion a wnaed gan **y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad**, ac roeddent yn destun **ymgynghoriad** yn 2018.

Pe bai'r Bil yn cael ei basio, y bwriad fyddai i'r enw newydd ddod i rym cyfreithiol ym mis Mai 2020 i sicrhau bod y cyhoedd yn gyfarwydd ag ef cyn etholiad nesaf y Cynulliad yn 2021. Bydd y Bil yn ei gwneud yn bosibl i bobl ifanc 16 a 17 oed bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad ar 5 Ebrill 2021 neu ar ôl y dyddiad hwnnw.

Mae Brexit yn cael effaith ar bwerau'r Cynulliad. Mae ***Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018***, sy'n trosi cyfraith yr UE yn gyfraith ddomestig, yn galluogi Gweinidogion y DU i wneud rheoliadau sy'n gosod cyfyngiadau ar allu'r Cynulliad i basio unrhyw ddeddfwriaeth sy'n anghydnaws â chorff cyfraith yr UE a gedwir gan y Ddeddf. Fodd bynnag, bydd angen proses penderfynu ar gydsyniad yn y Cynulliad ar gyfer unrhyw reoliadau o'r fath. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i **newidiadau gael eu gwneud i weithdrefnau'r Cynulliad**.

Felly, mae'r Cynulliad wedi esblygu dros yr 20 mlynedd diwethaf, o fod yn un corff a oedd ond yn gallu cymeradwyo deddfwriaeth eilaidd i fod yn ddeddfwrfa barhaol sydd â rhai pwerau codi trethi a phwerau deddfu llawn mewn meysydd polisi allweddol fel iechyd, addysg, trafnidiaeth a'r amgylchedd. Mae newidiadau pellach eisoes ar y gweill, o ran yr enw newydd a gostwng yr oedran pleidleisio.

Bydd Brexit hefyd yn cyflwyno newidiadau i setliad datganoli Cymru. Ni fydd deddfwriaeth yr UE yn darparu'r fframwaith lle gwneir Deddfau'r Cynulliad mwyach. Yn hytrach, bydd nifer o'r pwerau sydd ar hyn o bryd yn cael eu hymarfer gan sefydliadau'r UE yn bodoli yn y sefydliadau datganoledig ar ôl Brexit, a bydd y Cynulliad yn gallu pasio ei ddeddfwriaeth ei hun mewn meysydd a oedd arfer bod yn gyfrifoldeb yr UE.

Fodd bynnag, cytunwyd rhwng llywodraethau'r DU y bydd angen dull ar draws y DU ar rai meysydd polisi i ddisodli'r fframwaith a ddarparwyd gan gyfraith yr UE i sicrhau cysondeb ar draws marchnad fewnol y DU. Bydd gan y Cynulliad rhan bwysig i'w chwarae wrth graffu ar y fframweithiau newydd hyn ar draws y DU.

## Ffynonellau defnyddion

- Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad** (2018)
- Ymchwil y Senedd, **Datblygiadau Cyfansoddiadol** (parhaus)
- Y Goruchaf Lys, **Achosion y Penderfynwyd Arnynt** (2014, 2015)
- Llywodraeth y DU, **Cytundeb Rhwng Llywodraethau ar y Cytundeb ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin** (2018)